Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg

# Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg

Tachwedd 2022



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

www.southglamorganchc.wales

# Fformatau Addas

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Y Cynghorau Iechyd Cymuned | Tud 3 |
| Crynodeb Gweithredol | Tud 4 |
| Cyflwyniad a Chefndir | Tud 6 |
| Beth Rydym wedi'i Gyflawni | Tud 8 |
| Pwy sy'n Cysylltu â Ni | Tud 9 |
| Beth a Glywsom | Tud 10 |
| Dysgu o'r Hyn a Glywsom | Tud 87 |
| Diolchiadau | Tud94 |
| Adborth | Tud 95 |
| Manylion Cyswllt | Tud 96 |

# Y Cynghorau Iechyd Cymuned (Y CICau)

Y CICau yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae'r CICau yn annog a chefnogi pobl i gael llais yng nghynllun a darpariaeth gwasanaethau'r GIG.

Mae'r CICau yn cydweithio â'r GIG, cyrff archwilio a rheoleiddio. Maent yn gyswllt pwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio a'r rheiny sy'n eu defnyddio.

Mae'r CICau yn clywed oddi wrth y cyhoedd mewn sawl gwahanol ffordd. Cyn pandemig y coronafeirws, roedd y CICau yn ymweld yn rheolaidd â gwasanaethau'r GIG i glywed gan bobl tra roeddent yn derbyn gofal a thriniaeth. Yn ogystal, roedd y CICau yn clywed gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol, a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.

Ers pandemig y coronafeirws, mae'r CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn gwahanol ffyrdd.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideo-gynadledda a chyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed barn a phrofiadau pobl o wasanaethau'r GIG yn uniongyrchol, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae 7 CIC yng Nghymru a phob un ohonynt yn cynrychioli llais "y claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.

# Crynodeb Gweithredol

Roedd y CIC yn awyddus i gael adborth a mewnolwg cleifion a'u teuluoedd ar eu profiadau o'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Derbyniodd y CIC nifer o arolygon a oedd yn gofyn i ymatebwyr roi eu hadborth am y meysydd canlynol o'r Gwasanaethau Mamolaeth:

- Gofal Cyn-geni.
- Esgor a genedigaeth eu babi.
- Gofal Arbenigol
- Gofal ar ôl Geni

Yn gyffredinol, cymysg oedd ymatebion y cyhoedd am eu profiadau o Wasanaethau Mamolaeth, gyda 47% o ymatebwyr yr arolwg yn nodi eu bod yn 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' â'u profiad o'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghaerdydd a'r Fro.

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr am y Gwasanaethau Mamolaeth, rhoesant adborth ar y meysydd canlynol:

## Cyfathrebu a Gwybodaeth

Adroddwyd bod cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gan weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol â'r claf yn dda ar y cyfan er i rai cleifion danlinellu bod y jargon meddygol a ddefnyddiwyd gan rai gweithwyr Gofal Iechyd proffesiynol yn anodd ei ddeall.

I rai cleifion doedd y cyfathrebu rhwng y claf a'r gweithiwr Gofal Iechyd proffesiynol ddim yn ddigonol yn anffodus, a phryderon difrifol yn cael eu diystyru neu eu hanwybyddu. Hefyd, yn anffodus adroddodd nifer o ymatebwyr eu bod wedi dod ar draws aelodau staff anghwrtais.

## Opsiynau i Gleifion

Ar y cyfan roedd cleifion yn deall y diffyg dewis a achoswyd gan bandemig Covid-19 er bod rhai dan anfantais yn ariannol oherwydd y diffyg dewis hwn.

Profodd rhai bryder ychwanegol am eu bod yn gorfod mynd i apwyntiadau gofal iechyd anodd heb gefnogaeth emosiynol eu partneriaid neu aelodau'r teulu.

## Gofal i Gleifion

Rhoddodd nifer o gleifion ganmoliaeth uchel i'r gofal a gawsant ac i'r holl staff perthnasol.

Adroddodd cleifion eraill eu bod yn teimlo'n anniogel iawn ac am eu diffyg hyder yn y staff oedd yn gyfrifol am eu gofal. Soniwyd am eu profiadau cythryblus a

arweiniodd at anhwylder straen wedi trawma (PTSD) a chleifion ddim yn dymuno cael rhagor o blant mwyach.

# Cyflwyniad a Chefndir

Mae Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg yn gwneud pob ymdrech i glywed gan gleifion a'r cyhoedd ar draws pob demograffeg, cymuned a grŵp o fewn Caerdydd a Bro Morgannwg.


Mae Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg yn gwneud pob ymdrech i glywed gan gleifion a'r cyhoedd ar draws pob demograffeg, cymuned a grŵp o fewn Caerdydd a Bro Morgannwg.

Yn yr achos hwn, roedd y CIC yn awyddus i glywed yn uniongyrchol gan gleifion a oedd wedi defnyddio gwasanaethau Mamolaeth GIG am eu profiadau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.




Ym mis Mawrth 2020, achosodd pandemig Covid-19 anawsterau anghredadwy ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd gan gynnwys mynediad at wasanaethau Gofal Iechyd.

Roedd y cyfyngiadau a osodwyd gan y Llywodraeth mewn ymateb i'r pandemig - ymbellhau cymdeithasol, PPE a rheoli heintiau yn ogystal â phwysau cynyddol ar y gweithlu oherwydd salwch a hunanynysu - wedi arwain at leihad yng nghapasiti gwasanaethau ar draws y GIG.





Wrth i'r GIG symud o'i gyfnod 'Ymateb mewn Argyfwng' i'r cyfnod 'Adfer' yn dilyn y pandemig, y mae'r CIC yn cydnabod pwysigrwydd casglu adborth cleifion am wasanaethau'r GIG.

Cesglir adborth gyda'r bwriad o wneud argymhellion i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar sut i wella'r profiad o safbwynt y claf, os yw'n briodol gwneud hynny.



# Beth rydym wedi'i gyflawni

Lluniodd a chyhoeddodd CIC De Morgannwg arolwg ar-lein i gael adborth gan gleifion am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau mamolaeth y GIG yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.



Rhestrwyd yr arolwg ar ein gwefan a chafodd gyhoeddusrwydd trwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter. Yn ogystal, rhoddwyd manylion yr arolwg yn ein briffiau rheolaidd i'n rhanddeiliaid. Roedd yr arolwg ar gael i'w gwblhau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein i'w lenwi o'r 1af Awst 2022 i'r 31ain Hydref 2022 gan wahodd ymatebwyr i roi gwybodaeth am y canlynol:

- Gofal Cyn-geni
- Esgor a genedigaeth eu babi.
- Gofal arbenigol i'w babi
- Gofal ar ôl Geni



# Pwy sy'n cysylltu â ni

Roedd arolwg y CIC yn agored i'r mamau a roddodd enedigaeth, y tadau, partneriaid geni ac aelodau teulu a gafodd unrhyw brofiad o ddefnyddio Gwasanaethau Mamolaeth y GIG yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

| | | |
|---|---|---|
| Disgrifiodd **90%** o ymatebwyr eu hunain fel y Fam a roddodd enedigaeth | Disgrifiodd **3%** o ymatebwyr eu hunain fel y Tad | Disgrifiodd **7%** o ymatebwyr eu hunain fel aelod o'r teulu |
| Disgrifiodd **0%** o ymatebwyr eu hunain fel y partner geni | Dewisodd **100%** o'r ymatebwyr lenwi fersiwn Saesneg ein harolwg. | |



# Beth a glywsom

## Cipolwg....

| | | |
|---|---|---|
| Teimlodd **20%** o ymatebwyr na chawsant ddigon o wybodaeth gan eu Bydwraig neu Feddyg i'w helpu i benderfynu ble i gael eu babi. | Teimlodd **60%** o ymatebwyr na chawsant ddigon o gefnogaeth emosiynol gan y gweithiwr Gofal Iechyd proffesiynol tra'r oedd eu babi yn yr uned newydd-anedig. | |
| Teimlodd **44%** o ymatebwyr a gododd bryder yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth na chymerwyd hyn o ddifrif. | Siaradwyd â **83%** o ymatebwyr mewn modd dealladwy iddynt yn ystod yr esgor. | Doedd gan **28%** o ymatebwyr ddim hyder ac ymddiriedaeth yn y staff a ofalai amdanynt yn ystod yr esgor a'r enedigaeth. |
| **Roedd 42%** yn gweld yr un Fydwraig ym mhob apwyntiad yn ystod eu beichiogrwydd. | **Chafodd 80%** o ymatebwyr ddim dewis ble y byddai eu harchwiliadau cyn-geni yn digwydd. | **Roedd 37%** o ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n fodlon â'u profiad cyffredinol o'r Gwasanaethau Mamolaeth. |

## Gofal Cyn-geni




Roedd y CIC yn awyddus i gasglu adborth ar brofiadau cleifion o'u gofal cyn-geni.  Yn yr adran hon o'n harolwg, gofynnwyd cwestiynau ar y themâu o gyfathrebu a gwybodaeth, opsiynau a gofal i gleifion.

### Cyfathrebu a Gwybodaeth

Calonogol oedd gweld bod 71% o ymatebwyr wedi nodi iddynt dderbyn digon o wybodaeth gan weithiwr Gofal Iechyd proffesiynol i'w helpu i benderfynu ble i gael eu babi.

Dywedodd 7% arall o ymatebwyr na chawsant ddigon o wybodaeth ond hefyd nodwyd ganddynt nad oeddent ei hangen.

Siomedig oedd gweld bod 20% o 'r ymatebwyr yn teimlo nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth naill ai gan eu Bydwraig neu Feddyg i'w helpu i benderfynu ble i gael eu babi.



Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr roi sylwadau pellach ar hyn, wnaethon nhw gyfeirio at ddiffyg opsiynau oherwydd pandemig Covid-19, diffyg gwybodaeth am yr opsiynau ar gael, a diffyg cymorth i gael yr wybodaeth hon, a oedd yn arbennig o ddi-fudd i rieni newydd.



***'Roedd hyn yn ystod Covid ond rôn i'n teimlo mai prin fod yr Ymwelwyr Iechyd eisiau ein gweld o gwbl ac yn dweud o hyd 'edrychwch ar-lein' . Hyn ddim o unrhyw help pan taw hwn yw'ch babi cyntaf a dim cefnogaeth i'w gael.'***


***'Doeddwn i ddim yn ystyried bod dewis ble y gallwn gael fy mabi.'***

***'Oherwydd cyfyngiadau COVID doedd dim opsiynau mewn gwirionedd ar wahân i gartref neu uned esgor.'***

***'Gallwch ddewis unrhyw ysbyty ond doeddwn i ddim yn gwybod hyn gydag unrhyw un o'm plant.'***

***'Doedd geni gartref ddim yn opsiwn.'***

Dywedodd 62% o ymatebwyr yr arolwg wrth y CIC bod eu Bydwraig yn ymwybodol o'u hanes meddygol yn ystod eu harchwiliadau cyn-geni.





Canmolodd un ymatebydd ei Bydwraig gan nodi '*Trylwyr*' neu '*Trylwyr iawn*'. Fodd bynnag, nododd un arall y '*gallasai mwy o sylw fod wedi'i roi i'r hanes meddygol o anaemia.*'

Adroddodd 32% nad oedd eu Bydwraig yn ymddangos fel pe'n ymwybodol o'u hanes meddygol gan roi'r sylwadau canlynol:

***'Ym mhob apwyntiad bu'n rhaid i mi ail-egluro'r problemau gordensiwn a 'pre-eclampsia' yn fy meichiogrwydd olaf. Ymddangos na wnaed unrhyw ymdrech i ddarllen y nodiadau lle'r oedd wedi'i ysgrifennu sawl gwaith.'***


***'Dim syniad, collais fabanod a dioddef cyflyrau meddygol, a bob tro yn gorfod egluro eto gan nad ydw i'n gweld yr un person bob tro.'***



Calonogol oedd clywed gan yr ymatebwyr bod 87% ohonynt yn teimlo iddynt gael digon o amser i ofyn cwestiynau a thrafod eu beichiogrwydd yn ystod eu hapwyntiadau.

Fodd bynnag, siomedig oedd nodi bod 13% o'r ymatebwyr wedi dweud na chawsant ddigon o amser i ofyn cwestiynau neu drafod eu beichiogrwydd yn ystod eu hapwyntiadau gydag un yn nodi:


***'Roedd gormod o frys arnynt i gael sgwrs.'***




Yn ogystal, gofynnodd ein harolwg i ymatebwyr a siaradwyd â hwy mewn ffordd ddealladwy.



Roedd y CIC yn falch o glywed bod 92% o'r ymatebwyr wedi ateb 'do' neu 'fel arfer' i'r cwestiwn hwn




Pan gafwyd y cyfle i adael sylwadau ychwanegol i'w hymatebion i'r cwestiwn hwn, cafwyd adborth cadarnhaol a negyddol, fel ei gilydd.  Soniwyd eto am y broblem o orfod ail-adrodd eu hanes meddygol a'r gofid a achosodd hyn.


***'Y Bydwragedd oedd yn gyfrifol am hyn, nid yr ymgynghorwyr.'***

***'Bu'n rhaid i mi egluro fy hanes cymhleth bob tro, ac roedd hyn yn straen.'***

***'Rhois fy hanes meddygol i'm bydwraig yn ystod fy apwyntiad cyntaf. Yn ystod fy apwyntiadau roedd hi'n gallu edrych yn fy llyfr a gweld yr wybodaeth a rois.'***



Mewn ymateb i bandemig Covid-19, roedd rhaid i’r GIG wneud newidiadau o ran pa opsiynau fyddai ar gael i gleifion ar sut i gael mynediad at wasanaethau’r GIG a pha wasanaethau GIG fyddai ar gael iddynt. Roedd y CIC yn cydnabod pwysigrwydd gofyn i ymatebwyr roi eu hadborth ar hyn, a nodi sut yr effeithiodd hyn ar eu profiad.




Dywedodd 80% o’r ymatebwyr na chawsant ddewis ble fyddai eu harchwiliadau cyn-geni yn digwydd yn ystod eu beichiogrwydd.

Doedd hyn ddim yn achosi unrhyw broblem i rai cleifion gydag un yn canmol yr Uned Cyn-geni yn Ysbyty Athrofaol Cymru.  Cymerodd eraill agwedd realistig ar y sefyllfa gan ddeall cyfyngiadau Covid-19, ond i eraill roedd y lleoliad yn gostus i deithio iddo.

Disgrifiodd un claf ddigwyddiad gofidus pan dderbyniodd newyddion am broblem ddifrifol yn ymwneud â’i

beichiogrwydd, ar ei phen ei hun, oherwydd y cyfyngiadau ar fynychwyr ysbyty.

***'Ces wybod ble fyddent yn digwydd a doedd y lleoliadau hyn ddim yn broblem i fi'***


***'Roedd hyn oherwydd Covid.'***

***'Roedd fy Meddygfa yn gyfleus ac rôn i wrth fy modd yn mynd i adran Cyn-geni UHW. Roedd yn gyfeillgar ac awyrgylch hapus yno. Rôn i'n edrych 'mlaen bob tro rôn i'n mynd.'***

***'Chi'n cael beth a roir chi a bu'n rhaid i mi deithio bob wythnos i ysbyty'r Waun am archwiliadau heb arian ychwanegol i helpu gyda'r teithio.'***

***'Oherwydd cyfyngiadau Covid doedd fy ngŵr ddim yn cael bod yn bresennol, a chafodd yr opsiwn iddo fod yn bresennol trwy alwad fideo neu lafar ddim ei ystyried pan ddwedwyd bod problem ddifrifol gyda' beichiogrwydd.'***

Er na chafodd mwyafrif yr ymatebwyr y dewis o ran ble fyddai eu harchwiliadau cyn-geni yn digwydd, disgrifiodd y mwyafrif helaeth ohonynt (90%) leoliad eu hapwyntiad fel man cyfeillgar i blant, cyfforddus ac / neu yn hawdd ei gyrraedd.




Roedd y sylwadau ychwanegol a rannwyd gan rai ymatebwyr yn awgrymu '*ardal aros ar wahân neu rywbeth ar gyfer plant.*'

Cymerodd rai ymatebwyr y cyfle i ganmol y gwasanaethau Mamolaeth gan ddatgan '*Bob amser yn teimlo bob rhywun yn gwrando arnaf.*'

Tra bod eraill yn llai canmoliaethus:

***'Doedd apwyntiadau byth yn hirach na 10 munud. Doedd gen i ddim syniad pa gwestiynau y dyl'swn fod yn eu gofyn gan taw hwn oedd fy mhlentyn cyntaf.'***

***'Llawn dop a chyfyng, prysur a gorfod aros yn hir.'***

***'Mae'n anodd gan taw Covid a beichiogrwydd cyntaf oedd hi. Felly, weithiau doeddech chi ddim yn gwybod beth i'w ofyn ac os oeddwn i'n gofyn, roedden nhw'n dweud wrtha' i i fynd i edrych ar-lein. Roedd rhaid i mi edrych ar-lein i benderfynu ar fy nghynllun geni yn hytrach na chael sgwrs am yr opsiynau. Mae hynna'n anodd yn ystod beichiogrwydd cyntaf pan nad oes gennych unrhyw syniad a dim dosbarthiadau cyn-geni yn digwydd chwaith i siarad â phobl am opsiynau.'***


I'r ymatebwyr hynny a atebodd 'arall' i'r cwestiwn hwn, rhoddodd nifer ohonynt yr wybodaeth ychwanegol ganlynol:

***'Ofnadwy, doeddwn i ddim yn gallu mynd â fy mabis eraill gyda mi, dim gofal plant ac apwyntiadau wedi'u canslo ar y funud olaf.'***

***'Dim un o'r uchod, roedd yn ofnadwy ac anghyfforddus i fenyw feichiog.'***

***'Rôn i'n gorfod mynd i wahanol leoedd o hyd yn ystod y beichiogrwydd. Tua'r diwedd, bu'n rhaid i mi deithio i ysbyty Llandochau a oedd yn daith hir a dim llawer o lefydd parcio.'***

Dywedodd 82% o ymatebwyr yr arolwg wrth y CIC eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o ran yn y penderfyniadau am eu gofal cyn-geni.



Rhoddodd un ymatebydd y sylw hwn:

***'Teimlais bod y cyngor bob amser yn fy nghadw i a fy mabi yn ddiogel.'***

Nododd un arall, er teimlo iddi gael digon o ran yn y penderfyniadau am ei gofal, bod y defnydd o derminoleg feddygol wedi arwain at geisiadau am eglurhad.

***'Llawer o dermau meddygol yn cael eu defnyddio bob tro, ac yn aml rôn i'n gorfod gofyn beth oedd eu hystyr. Ond dro arall, siaradwyd mewn ffordd mwy normal.'***

Gadawodd ymatebydd arall adborth negyddol am yr wybodaeth a gawsant ac ynglŷn â chyfyngiadau Covid-19, er iddynt deimlo eu bod wedi cael rhan ddigonol yn y penderfyniadau am eu gofal.

***'Roedd y meddygon yn wael iawn am egluro, a doedd dim hawl mynd â neb i mewn gyda chi. Rôn i'n dod allan yn llefen bob tro.'***

O'r 18% a deimlai nad oeddent wedi cael rhan ddigonol yn y penderfyniadau am eu gofal, rhannodd rhai ragor o wybodaeth am eu profiadau.


***'Yn ystod yr esgor, cafodd penderfyniadau eu gwneud ar fy rhan.'***

***'Wnaethon ni drosglwyddo'r gofal o Fwrdeistref Caerffili. Cafodd ein cynllun geni a'r monitro eu newid yn gyfan gwbl heb unrhyw drafodaeth flaenorol gyda ni. Bu'n rhaid i ni frwydro gyda'r ysbyty i gael apwytiad gydag ymgynghorydd i ganfod beth oedd yn mynd ymlaen a pham roedd pethau wedi newid.'***



Calonogol oedd clywed bod 83% o'r ymatebwyr wedi adrodd bod eu cynllun geni wedi'i barchu, neu 'fel arfer' yn cael ei barchu.

Yn anffodus roedd hynny'n golygu na chafodd cynlluniau geni 17% o'r ymatebwyr eu parchu.




Mae sylwadau ychwanegol a adawyd gan ymatebwyr i ategu eu hymateb yn nodi ymyriadau i'r cynlluniau geni oherwydd cymhlethdodau, a staff prysur neu anghwrtais. Dywedodd ymatebwyr eraill nad oedd ganddynt gynllun geni yn y lle cyntaf.

Cymerodd un ymatebydd y cynllun hwn i sôn am anawsterau i gael gofal pan oedd yn dioddef o Haint y Llwybr Wrinol (UTI).

Dewisodd un ymatebydd adael adborth cadarnhaol am staff yr Uned Asesu yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.

***'Oherwydd maint y fam a'r babi, gofynnwyd am ysgogi'r geni neu lawdriniaeth cesaraidd. Dim ond ysgogi a ystyriwyd ac fe'i rhoddwyd yn anfoddog ar ôl ymbilio taer.'***

*'Fe ges i haint ar y dŵr yn ystod fy meichiogrwydd cyntaf, a oedd yn annioddefol erbyn 3yp. Gwrthododd y Meddyg Teulu fy ngweld felly ffoniais rif y bydwragedd a ddwedodd na fedren nhw helpu a byddai'n rhaid i'm meddyg fy ngweld. Ffoniais y Meddyg Teulu yn ôl gan ddweud beth ddwedwyd wrtha' i, a wnaethon nhw ddal i wrthod apwyntiad i fi. Bu'n rhaid i mi aros am y gwasanaeth Tu Allan i Oriau ac fe ges apwyntiad o fewn yr awr – gwych, ond ddylaswn i ddim fod wedi angen eu gofal nhw.'*


*'Aeth y cynllun geni ddim fel y gobeithiwyd oherwydd cymhlethdodau .'*

*'Wnaethon ni ffonio'r Bydwragedd ond roedden nhw'n brysur, felly wnes i eni ar ben fy hun. Roedd y Bywragedd a gyrhaeddodd ymhen yr awr yn anhygoel a chefnogol iawn.'*

*'Es i i'r uned asesu yn UHW oherwydd bod y babi'n symud llai ar 11 Hydref 2022. Roedd y staff mor hyfryd a charedig. Allwn i ddim argymell eu gofal yn fwy.'*

*'Staff anghwrtais yn UHW pan ges apwyntiad am fod symudiad y babi wedi lleihau.'*

## Gofal i Gleifion




Adroddwyd wrth y CIC bod 42% o ymatebwyr yr arolwg yn gweld yr un Fydwraig ym mhob apwyntiad.

***'Gyda thîm ELAN, felly rôn i'n cael ymweliadau cartref a oedd yn wych.'***

***'Yr un Fydwraig, ar wahân i'r adeg roeed ar wyliau neu'n sâl.'***

Nododd un ymatebydd ei bod wedi gweld yr un Fydwraig ym mhob apwyntiad ond nododd anawsterau i gysylltu â'r tîm Bydwragedd neu i gael ymateb o fewn amser rhesymol.

***'Fyddai'r Fydwraig yn gyson ddim yn ateb/ymateb i rif cyswllt y Bydwragedd lleol a roddwyd. Os oeddent yn ymateb, bu'n rhaid i fi aros hyd at 10 diwrnod.'***

I'r 58% o'r ymatebwyr hynny a ddywedodd nad oeddent yn gweld yr un Fydwraig ym mhob apwyntiad, roedd y profiadau'n amrywio o weld dwy Fydwraig wahanol trwy gydol eu beichiogrwydd i erioed weld yr un Fydwraig ddwywaith.

***'Oherwydd gwyliau blynyddol, wnes i ddim gweld yr un Fydwraig trwy gydol yr amser. Serch hynny, dim ond dwy Fydwraig a weles i ac rôn i mewn cysylltiad parhaus â'm Bydwraig gymunedol***

***'Fe ddylen ni gael yr un Fydwraig drwyddo draw.'***


***'Ddwywaith fe ges i Fydwraig gyflenwi ar gyfer apwyntiadau archwiliad. Rhoddodd un ysgubiad pilen i fi yn wythnos 40, yn swyddfa'r Meddyg Teulu.'***

***Dwi erioed wedi gweld yr un Fydwraig ddwywaith, roedden nhw i gyd yn wahanol '***

Roedd y CIC yn awyddus i gael adborth am y gofal a gafodd cleifion yn ystod eu hapwyntiadau cyn-geni, ac felly gofynnwyd i ymatebwyr a wnaeth y Bydwragedd ofyn am les emosiynol cleifion yn ystod yr apwyntiadau hyn.



Atebodd 70% o'r ymatebwyr 'do' neu 'fel arfer' i'r cwestiwn hwn.  Yn siomedig, dywedodd 30% o ymatebwyr na wnaeth eu Bydwraig ofyn yn ystod eu hapwyntiadau cyn-geni sut roeddent yn teimlo'n emosiynol.





Pan ofynnwyd am wybodaeth ychwanegol, soniodd un claf am fethu â chysylltu â'r fydwraig leol, tra rhoddodd un arall wybod i'r CIC am brofiad cadarnhaol a gafodd gyda'i Bydwraig gan deimlo iddi gael llawer iawn o gefnogaeth yn ystod amser emosiynol iawn.

***'Bu fy mam yng nghyfraith farw ar y bore rôn i fod i gael ysgubiad. Rôn i'n emosiynol iawn, roedd y Fydwraig mor ofalgar a charedig a wnaeth hi ddim gwneud y driniaeth. Roedd hi'n iawn i beidio, ond gan mod i mor drist a dryslyd, fysen i wedi derbyn y driniaeth tase hi heb newid y cynllunie.'***

***'Dim ond manylion y Bydwragedd lleol oedd gen i, a roedd yn ymddangos fel eu bod byth yn gweithio pan ôn i'n ffonio, ac rôn i byth yn cael galwad yn ôl i fy negeseuon llais. Yn y diwedd, fydden i bob tro'n cyrraedd ward nos yr ysbyty.'***

Cadarnhaodd 92% o'r ymatebwyr bod ganddynt fanylion cyswllt Bydwraig neu'r Tîm Bydwragedd y gallent ei ddefnyddio pe bai angen.




Er

bod ganddynt y manylion cyswllt,



dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi cael anhawster i gysylltu â'r tîm Bydwragedd, neu iddynt deimlo'u bod yn cael eu rhuthro wrth siarad â rhywun.

Nododd un claf mai manylion cyswllt yr 'Uned Asesu Obstetreg' yn unig oedd ganddi.'


***'Byddai'n cymryd gormod o amser i'r galwadau gael eu hateb ac weithiau doedd ganddyn nhw ddim yr atebion.***

***'Roedd y rhan hon yn teimlo fel ras ac rôn i'n teimlo'n aml bod rhaid i mi ddweud mod i'n iawn hyd yn oed pan ôn i'n stryglo.'***

***'Dim ond yr Uned Asesu Obstetreg.'***



Rhoddodd 69% o'r ymatebwyr wybod i'r CIC eu bod wedi cael yr help a'r cyngor yr oeddent eu hangen ar ôl cysylltu â'r Fydwraig.




Cafwyd canmoliaeth gan nifer o ymatebwyr o ran yr help a'r cyngor a gawsant.

***'Gwasanaeth rhagorol.'***

***'Roedd pawb fues i'n siarad â nhw yn hyfryd.'***

***'Wrth lwc, roedd rhywun yn gwrando arna' i.'***

Er adrodd iddynt gael yr help a'r cyngor angenrheidiol wrth gysylltu â Bydwraig, aeth llawer o ymatebwyr ymlaen i rannu profiadau negyddol a gawsant.

***'Roedd gen i apwyntiad gydag un Bydwraig, nid fy un arferol, yng Nghanolfan Feddygol Cyncoed ar fy nyddiad esgor disgwyliedig 30 Tach/1 Rhag 2016. Dwedais wrth y Fydwraig mod i'n credu fod fy nŵr wedi torri, gofynnodd i mi ddangos pad gan roi un i fi. Dwedon nhw y byddent yn fy archwilio wrth gael 'ysgubiad' dydd Sadwrn. Gofynnes am archwiliad mewnol gan mod i'n teimlo bod fy nŵr yn dechrau torri. Dwedwyd wrtha' i eto y byddwn yn ei gael ddydd Sadwrn (4 diwrnod i ffwrdd). Rôn i wedi cynhyrfu ac yn grac iawn. Es i'r Adran Obstetreg y noson wedyn gan nad ôn i'n teimlo'n iawn o hyd. O gael archwiliad mewnol, cadarnhawyd fy amheuon, a bu'n rhaid iddynt ysgogi'r geni ar unwaith.'***

***'Llawdriniaeth Cesaraidd frys ar ôl dal haint yn yr ysbyty, mwy na thebyg oherwydd na ches fy monitro ddigon na digon o archwiliadau yn y ystod y broses ysgogi.'***

***'Yn ystod yr esgor, rôn i ar ben fy hun heb unrhyw aelod o staff yn bresennol.'***

***'Ni ddilynwyd y cynllun geni a ges i gyffuriau yr oeddwn i wedi nodi'n benodol nad oeddwn eu heisiau.'***

## Esgor a Genedigaeth

Roedd y CIC yn awyddus i gasglu adborth gan gleifion am y Gwasanaeth Mamolaeth yn ystod esgor a


genedigaeth eu babi.  Yn yr adran hon o'n harolwg, gofynnwyd cwestiynau i'r ymatebwyr yn seiliedig  ar y thema o gyfathrebu a'r gofal a gafodd cleifion yn ystod y cyfnod hwn.

## Cyfathrebu

Gofynnodd ein harolwg i'r ymatebwyr a oeddent wedi codi pryder yn ystod yr esgor a'r enedigaeth, ac a gafodd y pryder hwn ei gymryd o ddifrif.

Mater o siom a phryder mawr i'r CIC oedd clywed gan 44% o'r ymatebwyr na chafodd eu consyrn ei gymryd o ddifrif.






Pan gawsant gyfle i ychwanegu rhagor o adborth at eu hymateb i'r cwestiwn hwn, dywedodd cleifion bod neb yn gwrando arnynt pan oeddent yn credu bod rhywbeth o'i le, a drodd allan wedi hynny i fod yn wir.  Mynegodd cleifion eu hanhapusrwydd am na chfaodd eu partner yr hawl i fod yn bresennol oherwydd Covid-19, pan deimlent na allent wneud penderfyniad deallus oherwydd eu poen a'u gofid.  Adroddodd cleifion eraill bod staff yn gwneud iddynt deimlo'n '*wirion'* neu'n '*niwsans'* , neu cafwyd enghreifftiau ganddynt lle na pharchwyd eu dymuniadau.

Defnyddiwyd geiriau fel '*Trawmatig*', ac roedd un ymatebydd mor ofidus am ei lles ei hun a'i babi am fod staff '*mor brysur*'  fel y cysylltodd â'r Gwasanaethau i Fenywod.  Disgrifiodd claf arall fel y bu'n rhaid iddi 'frwydro i'r eithaf' am lawdriniaeth Cesaraidd ar ôl dioddef anhwylder straen wedi trawma (PTSD) o'i phrofiad esgor blaenorol.

***'Cymerodd babi rhif 2 amser hir i'w genhedlu ar ôl colli 5 babi.  Pum mlynedd yn ddiweddarach, fe gyrhaeddodd fy mab. Ces gymhlethdodau wrth esgor y tro cyntaf a chymhlethdodau wedi hynny gan arwain at PTSD am sawl blwyddyn.  Dewisais i gael llawdrniaeth Cesaraidd, ond gorfu i mi frwydo'n galed i'w chael.  Ddylai hynny ddim digwydd a chithau wedi dioddef eisoes. Ces 2 lawdriniaeth C wedi hynny a chael fy sterileiddio, dim cymhlethdodau a'r cyfan yn gwbl ddidrafferth. Ond mae'n anodd cael eich clywed gan Ymgynghorwyr a Bydwragedd.'***

***'Teimlais y babi'n symud ac roedd y boen yn fy nghefn yn ddwys erbyn hyn ac rôn i'n cael trafferth i ddefnyddio'r toiled…doedd neb i weld yn malio ac yn fy anwybyddu am fy mod i'n fam tro cyntaf nodweddiadol... yn nes ymlaen fe drodd allan fod fy mabi wedi troi cefn wrth gefn a mod i'n awr yn dioddef gorflinder oherwydd y boen o beidio â chael nwy ac aer.'***

***'Rôn i'n gwybod mod i yng ngyfnod olaf esgor ond yn ôl pob golwg yn edrych yn 'rhy ymlaciedig!  Dim ond ar ôl rhoi'r monitorau arno a churiad calon y babi yn gwanhau gyda'r cyfangiad y ces i fy rhuthro i fyny'r grisiau. Wedi dweud hynny, gan mod i wedi sôn mor bryderus yr oeddwn cyn y monitorau, fe ganiataodd y staff i mi aros yn hytrach na fy anfon adref.'***

***'Ces fy indiwsio, ar fy mhen fy hun gan fod Covid ar fy mhartner a ddim yn cael bod gyda mi. Rôn i mewn lot o boen yn gyflym iawn.  Fe ddaeth y staff pan genais y gloch, ond ces y teimlad mod i'n niwsans.  Ces gynnig rhyw fath o boenladdwr (dim yn cofio beth) ond dôn i ddim yn teimlo mod i mewn sefyllfa i wneud penderfyniad doeth ynghylch hyn ac rôn i mewn cymaint o boen ac yn reit bryderus.'***


***'Bu rhaid i mi newid fy nghynlluniau oherwydd problem gyda'r beichiogrwydd, Gwnaed yn glir i mi nad oedd gen i ddewis o gwbl beth fyddai'n digwydd ac rôn nhw'n gwneud i mi deimlo mai dwli ar fy rhan fyddai meddwl y gallwn eni'n naturiol.'***

***'Wrth siarad am eni gartref, eglurodd y Fydwraig y broses.  Soniodd am 'rai menywod'  sydd ddim eisiau i'r Fydwraig eu helpu ac eisiau iddynt aros mewn ystafell arall a chadw draw yn gyffredinol. Roedd hi'n negyddol iawn am hyn gan wneud i mi deimlo'n anghyfforddus gan mai dyma'r math o enedigaeth rôn i eisiau.  Teimles y dylai fy nymuniadau gael eu parchu, ond tase hi wedi bod gyda fi adeg y geni, fydden i wedi poeni y bydde hi wedi'u diystyru.'***

***'Gwnes i nodyn o bethau nad oeddwn i'n bendant mo'u heisiau ond anwybyddwyd y rhain yn ystod yr esgor.'***

***'Ces fy indiwsio ac roedd rhywbeth yn teimlo o'i le gyda'r pesari.  Gofynnes iddynt ei dynnu allan a gosod un arll pe bai angen.  "Na" oedd yr ateb.'***

Roedd y CIC yn falch i glywed bod 83% o'r ymatebwyr wedi dweud y siaradwyd â hwy mewn ffordd ddealladwy wrth dderbyn gofal yn ystod y cyfnod esgor.




Roedd y CIC yn siomedig i glywed gan nifer o gleifion am eu profiadau negyddol yn ystod eu cyfnod esgor.

Rhoddodd cleifion enghreifftiau eto i'r CIC o staff Gofal Iechyd yn anwybyddu pryderon a bod prinder staffio yn straen ar y staff, a'u bod hwy'n teimlo iddynt gael eu 'hanwybyddu' o'r herwydd.

***'Ces fy anwybyddu braidd, a'm trywanu yn fy nghoes gyda phethedin …gwaed yn rhedeg i lawr fy nghlun wrth i'r Nyrs gerdded allan. Mam a lanhaodd fi.'***

‘Yn ystod cyfnod esgor fy meichiogrwydd cyntaf, dwedes wrth y fydwraig fod y babi’n gwthio yn erbyn fy asennau yn ystod y cyfangiadau. Roedd y boen yn annioddefol, ond wnaethon nhw ond dweud wrtha’ i mai’r cyfangiadau oedd hyn.  Ers hynny, mae’r asen yn dod o’i lle yn rheolaidd ac ar ôl geni eilwaith, dwi’n gwybod beth yw’r boen a’r teimlad o asen yn torri, ac nad y cyfangiadau yn unig oedd hyn.  Dylasent fod wedi gwrando arna i a fy helpu yn lle fy anwybyddu fel pe bawn i’n gorymateb.’

doedd y Fydwraig ddim yn siarad llawer â fi. Hwn oedd fy meichiogrwydd cyntaf.  Ces drafferth ofnadwy gyda'r monitorau ffoetws yn ystod y broses geni naturiol, roedd yn datgysylltu drwy’r amser a doedd y Fydwraig yn malio dim.’


‘Ces fy anwybyddu trwy’r indiwsiad cyfan.’

‘Anfonwyd fy merch yng nghyfraith adre mewn eira mawr ar ôl oriau o esgor hir.’

‘Wrth lwc, roedd yr ymgynhgorydd ar-alw yn gwybod am fy achos a’r cynllun gofal. Oni bai am hyn, fyddwn i a fy mabi wedi bod mewn trafferthion.’

## Gofal i Gleifion

Testun pryder oedd nodi bod 28% o’r ymatebwyr wedi dweud wrth y CIC na lwyddasant i gael aelod o staff i’w helpu mewn amser rhesymol pan oeddent angen sylw yn ystod yr esgor a’r geni.




Pan ddaeth y cyfle i ychwanegu mwy o wybodaeth at eu hymatebion, cafwyd cymysgedd o adborth cadarnhaol a negyddol.

***‘Gofynnais i weld Meddyg ar ôl cael gwybod bod arna’ i angen cael fy indiwsio ar y dydd Gwener gan fod curiad calon y babi wedi arafu dros gyfnod o amser. Yn wirioneddol ofidus ac wedi cynhyrfu, gofynnais tua 30 gwaith a daeth dim un Meddyg am 72 awr. Cadarnhawyd hyn pan ofynnais am fy nodiadau.’***

***‘Roedd y fydwraig olaf a ddaeth i fy ngweld yn wych a chynigiodd hi nwy ac aer i fi a’m harchwilio pan sylweddolodd mod i eitha pell ymlaen.  Mewn gwirionedd roedd ceg fy nghroth wedi ymledu’n llawn cyn i mi allu cael unrhyw un i fy archwilio neu gymryd fy mhoen o ddifrif.’***

***‘Rôn i’n sownd wrth fonitor ar ôl ‘chydig amser, felly roedd y Fydwraig yn fy ystafell yn gyson.’***

***‘Roedd y staff yn ffantastig a bob tro yn gwneud amser i ateb fy nghwestiynau a rhoi tawelwch meddwl i fi.’***

***‘Gyda’n hail blentyn wnaethon ni fynnu cael llawdriniaeth Cesaraidd – popeth wedi mynd yn grêt.  Ond dwi’n dal i fyw heddiw gyda thrawma’r enedigaeth gyntaf a phlentyn na fydd yn gallu byw bywyd llawn.’***

***‘Mewn rhai agweddau, do, ac eraill, naddo’***

***‘Yn ystod yr esgor, do, ar y ward ysgogi’r geni, Naddo.’***


Gofynnodd y CIC i’r ymatebwyr: “Wrth ystyried eich gofal yn ystod yr esgor a’r enedigaeth, oeddech



chi'n cael eich cynnwys ddigon yn y penderfyniadau am eich gofal?"

Atebodd 75% o'r ymatebwyr 'oeddwn.'

Atebodd 25% o'r ymatebwyr 'nac oeddwn'




Rhoddodd yr ymatebwyr y sylwadau canlynol cyhwanegol yn dilyn eu hymatebion uchod.

***'Rôn i eisiau epidwral ond roedd hi'n llawer rhy hwyr erbyn i unrhyw un sylweddoli mor bell ymlaen ôn i yn y cyfnod esgor. Ces fy indiwsio am 9yb a ches wybod bod angen i fi aros tan 3yp i gael archwiliad. Ganwyd fy merch am 2.12yp.'***


***'Roedd yr esgor yn gyflym iawn iawn ac roedden nhw'n wych. Yr unig beth yr hoffen i fod wedi'i gael fyddai episiotomi yn gynt gan nad oedd unrhyw ffordd y bysen i wedi ei gwthio allan. Roeddwn nhw'n dal i ddweud wrtha' i am wthio neu fe fyddai'n rhaid i mi fynd lan lofft i gael help wrth eni gan fod y babi dan straen. Ond fedren i ddim ei chael allan hebddo.'***

***'Rôn i ar y ward Obstetreg yn cael fy monitro. Bob tro, roedd y Bydwragedd yn dod i fy ngweld mewn da bryd, hyd yn oed pan oeddent o dan bwysau mawr a'r staff yn brin.'***

***'Rwy'n geni'n gyflym iawn, felly rôn i'n teimlo bod hyn allan o'u dwylo nhw. Roedd y Bydwragedd yn brysur a phwysleisiodd fy mhartner mod i'n geni'n gyflym. Fe ddwedon nhw y byddent yn fy ffonio'n ôl ond rôn i wedi rhoi genedigaeth o fewn 20 munud.'***

***'Staff yn rhy brysur. Pryderon yn cael eu rhoi o'r neilltu.'***

Mater o bryder i'r CIC oedd bod 28% o ymatebwyr yr arolwg yn dweud nad oedd ganddynt hyder nac ymddiriedaeth yn y staff a ofalai amdanynt yn ystod eu cyfnod esgor a geni.




Y rhesymau a roddwyd gan yr ymatebwyr am eu hymateb negyddol oedd: cael eu gadael ar eu pen eu hun gan y staff meddygol, y staff meddygol yn anwybyddu pryderon neu'n siarad â chleifion gan ddefnyddio termau meddygol na fedrent eu deall. Teimlodd un claf mor anniogel fel na fyddai eisiau babi arall byth eto.

***'Roedd hi mor brysur yno fel na fedrent fy helpu ac roedd y sefyllfa'n ofnadwy. Mae wedi fy ngwangalonni gymaint fel mod i ddim eisie babi arall gan i mi deimlo mor anniogel.'***

***‘Gwrthodwyd archwiliad i fi a phan gafodd fy mhartner gymorth gofynnwyd iddo a oedd e’n credu mod i’n ‘gwthio’, a hyd yn oed wedyn chafwyd yr un archwiliad.’***

***‘Yn ystod y geni wnaeth y Fydwraig ddim gwrando arna’ i o gwbl. Anwybyddodd fi pan ddwedais mod i’n teimlo pen y babi ac rôn i’n iawn. Profiad trawmatig.’***

***‘Yn anffodus, roedd y Doctor yn siarad yn gyflym iawn gan ddefnyddio termau meddygol ac roedd hi’n anodd iawn deall beth oedd yn digwydd.’***

***‘Roedd y geni ei hun yn iawn, ond nid felly’r broses esgor gan fy mod ar ben fy hun ac yn ofnus am sawl awr.’***

***‘Dim fel babi 1’ pan rois enedigaeth naturiol mewn pwll geni.’***

I’r rheiny a ddangosodd ymddiriedaeth a hyder yn y staff a fu’n gofalu amdanynt yn ystod yr esgor a’r

enedigaeth, rhoesant adborth ychwanegol gan ganmol y staff oedd ynghlwm wrth eu gofal. Canmolwyd yr Ystafelloedd Esgor yn Ysbyty Athrofaol Cymru gan un ymatebydd a ddisgrifiodd y gofal a gawsant fel 'eithriadol' ac un arall yn dweud eu bod wedi cael 'tawelwch meddwl'.

***'Tîm ffab'***

***'Roedd pawb a ofalodd amdanaf yn ystod yr esgor yn wirioneddol anhygoel.'***

***'Ces dawelwch meddwl gan y rhai o'm cwmpas.'***

***'Yn ystod yr esgor, oedd, ond ar y ward indiwsio, na.'***

***'Dim staff yn bresennol yn ystod yr esgor, ond wedi'r geni ces fy nhrin yn barchus. Roedd y ddwy Fydwraig oedd gyda fi yn yn wych ac yn egluro popeth i fi.'***

## Gofal Arbenigol

Nododd 12% o ymatebwyr yr arolwg bod eu babi wedi treulio amser yn yr Uned Babanod Newydd-anedig ar ôl yr enedigaeth. Roedd y CIC yn awyddus i gasglu rhagor o adborth ar eu profiadau.

Soniodd nifer o gleifion fel y bu'n rhaid iddynt aros am boenladdwyr ar ôl gofyn i'r staff meddygol.



Nodwyd hefyd gan lawer o gleifion bod staff ar y ward yn ymddangos yn *'brysur iawn'* a bod cleifion yn gorfod aros yn hir i weld staff.

Dywedodd rhai cleifion eu bod wedi cael trafferth i gael help gan staff pan oedd angen neu eu bod yn teimlo'u bod yn '*creu trafferth iddyn nhw'.*


***'Pan ôn i nôl ar y ward yn gwella, cymerodd hi amser hir i staff ddod i'm gweld.  A chan fy mod yn treulio amser yn gweld fy mabi yn NICU, roedden nhw'n ddifater am fy mhoen gan nad ôn i'n mynd nôl am boenladdwyr.  Y rheswm am hyn oedd fod fy mabi yn 8.5 wythnos yn gynnar, finne'n poeni a hynny oedd fy mlaenoriaeth i.  Felly pan rôn i'n dychwelyd i'r ward, doedden nhw'n cymryd dim sylw o fy mhoen.'***

***'Teimlai fel bod y staff ar y ward yn brysur iawn. Weithiau'n gorfod aros yn hir i rywun ddod. Cymerodd hi 2 awr i fi gael poenladdwyr ar ôl gofyn. Ces gynnig help i roi bath i'r babi ond eto ddaeth hyn ddim i fwcwl.   Roedd y staff glanhau yn gwybod cyn fi mod i'n cael fy ngyrru adref.'***

***'Roedd y staff yn brysur iawn ac yn anodd dod o hyd iddyn nhw.  Gofynnes am boenladdwyr sawl gwaith cyn cael rhai yn y diwedd,  Ces wybod na allwn adael y babi ar ei phen ei hun os ôn i eisie mynd i'r toiled gan nad oedd breichled tag ganddi. Ces drafferth i gael aelod o staff i ddod ati tra mod i wedi mynd.'***

***'Pawb yn rhy brysur yn siarad pan roeddech chi'n gofyn am help (ar ôl iddyn nhw eich arddel pan oedd eu sgwrsio drosodd). Bob amser yn gwneud i chi deimlo eich bod yn creu trafferth iddyn nhw.'***

Yn siomedig, adroddodd 60% o'r ymatebwyr na chawsant ddigon o gymorth emosiynol gan y gweithwyr Gofal Iechyd proffesiynol tra roedd eu babi yn yr Uned Babanod Newydd-anedig.




Canmolodd rhai cleifion y staff a ofalai amdanynt gan nodi eu bod yn '*eu parchu'*. Nododd ymatebwyr eraill iddynt gael profiadau cymysg yn ystod cyfnod eu hesgor neu brofiad gwael.

***'Indiwisio, naddo, yr esgor, do***

***'Roedd fy hyder yn lleihau dros yr oriau. Chafon ni ddim y gofal y dylasen fod wedi'i, gael'***

***'Roedd y Fydwraig yn ardderchog.'***

***'Cyrhaeddodd staff ar ôl y geni ond fe wnaethon nhw helpu gan mod i angen pwythau.  Rôn nhw'n fy mharchu a theimles mod i'n rhan o bob penderfyniad.'***

***'Ces sanau llawfeddygol a oedd yn rhy dynn am fy nghoesau a buon nhw bron achosi i'r gwaed geulo gan fod y cylchrediad i fy nhraed wedi'i dorri.'***


***'Yn yr ystafell esgor, do, roedd y ddwy Fydwraig yn hyfryd a chydwybodol.   Roedd y Bydwragedd/Nyrsys ar y ward Indiwsio yn fy mwydro/ac rôn i'n gorfod dal i ailadrodd wrth staff newydd am y boen a'r problemau ac ati.  Roedd y staff wedi'r lawdriniaeth-C (ar y dechrau ar y ward yn syth wedyn) yn ddi-hid. Ar ôl galw a gofyn am fowlen cyfogi, ddaeth neb ac felly es yn sâl ar fy nhraws.  Yna fe gyrhaeddon nhw a dweud bod bowlen ar yr ochr (allan o'm cyrraedd a finne ddim yn gallu teimlo fy nghoesau i fynd allan o'r gwely i'w nôl.) Ches i ddim cynnig bwyd ac ar ôl i mi ofyn am glogyn glân gan mod i wedi bod yn sâl drosto, fe ddwedon nhw nad oedd dim yn sbâr ac y bydde'n rhaid i fi aros.'***

Gofynnodd y CIC i'r ymatebwyr roi eu barn am eu profiad o'r gofal a gafodd eu babi yn yr Uned Babanod Newydd-anedig.



Yn anffodus, dim ond 40% o’r ymatebwyr a ddyfarnodd iddynt fod yn ‘ fodlon iawn’  gyda’u profiad ac 20% arall yn dyfarnu ‘gweddol’.

Dyfarnodd 40% o’r gweddill ymatebwyr iddynt fod yn




‘anfodlon iawn’ gyda’u profiad.

Aeth un claf anfodlon ati i adael yr adborth ychwanegol canlynol:

***‘Amddifadedd ocsigen adeg y geni, angen tîm argyfwng i ailgychwyn y galon a help parhaus gyda’r anadlu, sawl ffit wedyn.  Roeddem ar y ward Newydd-anedig am 6 wythnos.’***



Nododd claf arall y diffyg cyfathrebu ynghylch cynnydd ei babi a dyma pam y rhoddwyd 'Gweddol' am eu profiad.

***'Dim ond am amser byr roedd fy mabi yno am archwiliadau.  Serch hynny, doeddwn i ddim yn cael y newyddion diweddaraf am ei gynnydd a phan ddaeth yn ôl ataf roedd tiwb yn ei drwyn ond wnaeth neb egluro pam.'***



## Gofal ar ôl Geni


Roedd y CIC yn awyddus i gasglu adborth gan gleifion ynglŷn â'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.  Yn yr adran hon o'n harolwg rhoddwyd cwestiynau i'r ymatebwyr yn seiliedig ar y themâu o gyfathrebu a gwybodaeth, opsiynau i gleifion a'r gofal a dderbyniodd cleifion yn ystod y cyfnod hwn.

## Cyfathrebu a Gwybodaeth

Gofynnodd y CIC i'r ymatebwyr a gawsant weithiwyr Gofal Iechyd proffesiynol y gallent siarad â hwy am eu gofidiau a'u hofnau ar ôl y geni.

Atebodd 54% o'r ymatebwyr 'do, bob amser' neu 'do weithiau' i'r cwestiwn hwn.

Yn anffodus, dywedodd 37% o'r ymatebwyr na chawsant weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol y gallent siarad â hwy am eu gofidiau a'u hofnau ar ôl yr enedigaeth.




Roedd y sylwadau ychwanegol a gafwyd yn canmol Ymwelwyr Iechyd am eu cefnogaeth. Roedd eraill yn teimlo'n gwbl ddi-gefn neu'n cyfeirio at enghreifftiau lle teimlent fod staff yn ddifater iawn o'u gofidiau. Hefyd nodwyd diffyg dilyniant gofal gan yr un aelodau o staff.

***'Daeth POB cefnogaeth a gafwyd oddi wth yr Ymwelwyr Iechyd lleol a dîm y Bydwragedd na Meddygon Teulu.  Byddai llawer o'r problemau meddygol heb eu trin na'u datrys heb ymyrraeth yr Ymwelwyr Iechyd.'***

***'Roedd yr Ymwelwyr Iechyd yn wych.'***

***'Dim staff'***

***'Ces fy ngadael ar ben fy hun gan mwyaf. Wnes i ddim teimlo i mi gael cefnogaeth emosiynol na meddyliol o gwbl, yn enwedig gan na chafodd fy ngŵr ganiatâd i ymweld oherwydd Covid.'***

***'Pan oeddwn yn gwella ar ôl y geni, roedd fy mabi mewn cot clir ochr arall i'r ystafell. Ôn i'n methu mynd ato pan oedd e'n crio am fy mod wedi cael anaesthetig ar fy asgwrn cefn. Roedd y gloch i alw'r Nyrs uwch fy mhen ac yn rhy uchel …roedd rhaid i fi weiddi ar rywun.'***

***'Teimlais fod un Fydwraig yn gwrando, ond roedd hynny ond am ei bod hi wedi dod i f'adnabod yn fy apwyntiadau adeg fy meichiogrwydd.'***


***'Roedd un aelod o staff yn barod iawn i helpu a gwrando ar fy ngofidiau ynghylch bwydo ar y fron ac ati. Roedd y lleill yn ddi-hid iawn gan fy mod yn fam am yr eildro er na lwyddais i fwydo ar y fron y tro cyntaf am fod fy mabi wedi gorfod aros yn NICU.'***

***'Chafodd hyn mo'i drafod.'***

***'Gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dod i fy nhŷ bob dydd. Weles i erioed yr un aelod o staff ddwywaith.'***

Gofynnodd ein harolwg hefyd i ymatebwyr a gawsant wybodaeth am eu hadferiad corfforol hwy eu hunain yn dilyn y geni.

Atebodd 77% o ymatebwyr 'do, yn bendant' neu 'do, i ryw raddau' i'r cwestiwn hwn. Atebodd y 23% oedd yn weddill 'naddo'.



Roedd yr adborth a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn nodi bod y gofal ar ôl geni yn troi o gwmpas y babi, nid y fam.

Mewn achosion eraill, byddai cleifion ond yn cael taflen ymarferion yn unig, gwybodaeth ar fwydo'r fron neu fanylion am apwyntiadau Ffisiotherapi.

Soniodd un claf am ddigwyddiad lle bu'n rhaid i weithiwr Gofal Iechyd proffesiynol siarad ar ei rhan cyn i'w hanafiadau ôl-eni gael eu cymryd o ddifrif.  Cyfeiriodd un arall at brofiad negyddol wrth gysylltu ag Ysbyty Athrofaol Cymru i ofyn am apwyntiad dilynol.

***'Roedd fy anafiadau corfforol yn helaeth a heb eu cymryd o ddifrif nes i'r Ymwelydd Iechyd ymyrryd.  Ddim wedi'u datrys yn llwyr o hyd.'***

***'Roedd hyn yn ymwneud â ffisio – nhw ond yn dweud y byddwn i'n cael apwyntiadau nawr ar gyfer yr episiotomi.'***

***'Roedd y gofal ar ôl geni gan bwy bynnag yn ymwneud â'r babi 99% o'r amser.'***

***‘Cymerais yn hirach i wella ar ôl geni’n naturiol nag ar ôl 2 lawdriniaeth Cesaraidd.’***


***‘Rhan amlaf ces gyngor i orffwyso. Ddim yn cofio’n fanwl iawn. Roedd y rhan fwyaf o’r wybodaeth a ges i ynghylch bwydo ar y fron.’***

***‘Ffoniais UHW mewn dagrau gan mod i’n cael adwaith yn erbyn yr epidwral a rôn nhw’n gwneud i mi deimlo’n euog am ofyn am apwyntiad a fyddai’n golygu y byddwn yn colli apwyntiad cefnogi bwydo ar y fron “pwysig iawn”.’***



***‘Taflen ymarferion a dyna’r oll!’***

Cadarnhaodd 69% o ymatebwyr yr arolwg y dywedwyd wrthynt â phwy i gysylltu os oeddent yn poeni am eu hiechyd neu iechyd eu babi ar ôl gadael yr ysbyty neu ar ôl genedigaeth gartref.




O'r 69% hynny, rhoddodd nifer o ymatebwyr wybodaeth ychwanegol am eu profiadau. Nodwyd bod yr wybodaeth a roddwyd yn '*gwrthdaro*'. Cyfeiriodd cleifion eraill eto at yr anhawster i ddeall yr wybodaeth a a roddwyd iddynt.

***'Roedd llawer ohono'n anghyson. Yn enwedig yn ystod yr wythnos gyntaf***

***'Doeddwn i ddim dan ofal Bydwragedd ond dan arweiniad Ymgynghorwyr ac roedd y profiad yn ofnadwy. Doedden nhw'n gwneud dim synnwyr i fi hyd yn oed pan ofynnes iddyn nhw ei egluro eto.  Dim syniad gen i sut fyddai fy mabi'n dod allan.'***

O'r 21% na ddywedwyd wrthynt â phwy i gysylltu pe baent yn bryderus am eu hiechyd neu iechyd eu babi, dewisodd un ymatebydd ddweud ei bod wedi dioddef profiadau negyddol gyda Bydwragedd a staff Gofal am fwy nag 13 o flynyddoedd.


***'Roedd y Bydwragedd a Staff Gofal yn ofnadwy y tri thro mewn cyfnod o 13.5 blwyddyn, a 'd yw fy mabi diwethaf ond yn 4 mis oed.'***

Soniodd claf arall nad oedd yn cofio p'un ai y cafodd y wybodaeth hon ai peidio, mor barod oedd eu Meddyg Teulu i'w helpu ar ôl y geni, ond doedd hi ddim mor ganmoliaethus am y Fydwraig.

***'Daeth fy Meddyg Teulu i fy ngweld yn fy nghartref a ches lawer mwy o help na'r Fydwraig pan ddois adre o'r ysbyty.'***

Cadarnhaodd 50% o ymatebwyr yr arolwg bod eu cwestiynau bob amser yn cael eu hateb mewn ffordd ddealladwy.

Atebodd 40% ‘oeddwn, weithiau’ gyda 3% arall yn ateb ‘dim yn gwybod neu'n methu cofio’.




Roedd yr adborth ychwanegol a adawyd i’r cwestiwn hwn yn cyfeirio eto at anghysondeb y gofal wrth weld staff gwahanol ym mhob apwyntiad. Soniodd cleifion am y cyngor gwrthgyferbyniol a gawsant gan yr holl wahanol weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol a welwyd.

Soniodd un claf am ddiffyg dealltwriaeth a chefnogaeth staff nes i’w Meddyg Teulu



ymyrryd, gan ddisgrifio'r profiad fel 'straen arswydus'.

Dywedwyd bod y cyngor a roddwyd ddim ar gyfer eu plentyn hwy'n benodol, ac na ddarparwyd gofal llesiant meddyliol.

***'Cyngor gwahanol gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a welais.'***

***'Gwahanol Fydwraig bob tro. Dim cysondeb.'***

***'O ran tîm NICU, yn bendant. O ran fy ngofal i, ddim bob amser.'***


***'Roedd cymaint o anghysonderau, syth allan o'r llyfr ac ati, heb fod yn benodol i'm mhlentyn i a dim gofal o ran fy lles meddyliol.'***

***'Roedd y staff i gyd yn mynd ymlaen ac ymlaen am fwydo ar y fron. Rôn i'n cael trafferth i fwydo, yn wirioneddol sâl ac wedi blino'n lân, a hyd yn oed wedyn rôn nhw'n dal i fy mhlagio. Gwnaeth hyn i fi deimlo'n waeth. Ar ôl mynd adre, cymerodd fy Meddyg Teulu drosodd, dwedodd "digon yw digon' a wedyn rhoeson ni'r babi ar laeth powdwr. Wnes i deimlo'n well wedyn. Dyna beth oedd cychwyn ofnadwy, llawn straen i fam ac mae'n dal i fy nhristáu'n fawr.'***

Gofynnodd y CIC a oedd ymatebwyr yr arolwg yn teimlo'u bod wedi cael cymorth a chyngor gan eu Bydwraig am iechyd a chynnydd eu babi.



Atebodd 77% 'do, yn bendant' neu 'do, i ryw raddau'. Dywedodd 8% arall nad oeddent angen help neu na fedrent gofio.




Er yr ymatebion cadarnhaol a gafwyd, roedd adborth negyddol yn dal i gael ei rannu. Dywedodd cleifion wrth y CIC bod archwiliadau i famau yn wael, a'r Meddyg Teulu yn canolbwyntio ar eu babi. Roedd eraill yn methu â threfnu apwyntiadau archwiliad ac eraill ond yn

cael cynnig ymgynghoriadau ffôn ar ôl llawdriniaeth Cesaraidd.

Dywedodd un claf wrth y CIC fod y ffordd yr oedd gweithwyr Gofal Iechyd yn siarad â hwy wedi eu gadael yn teimlo’u bod yn cael eu cyhuddo o esgeuluso’u babi neu rywbeth tebyg.

***‘Roedd hi’n araf i ennill pwysau a chafodd ei rhoi ar gynllun bwydo, ond roedd y ffordd wnaethon nhw siarad â ni am hyn ddim o unrhyw help. Roedd e’n teimlo fel tasen ni’n cael ein cyhuddo o’i hesgeuluso neu rywbeth, a hithau mewn gwirionedd roedd yn taflu i fyny bob tro ar ôl ei bwydo. Rôn i wedi blino’n lân ar ôl bod ar fy nhraed gyda hi drwy’r nos ac rôn i’n teimlo mod i’n cael fy nghyhuddo o fod yn ddiog am mod i’n amharod i bwmpio’r llaeth a rhoi boteli ychwanegol ar ôl pob pryd.’***


***‘Ymgynghoriad ffôn yn dweud nad oedd angen i fi gael fy ngweld, felly ddaeth neb i weld sut oeddwn yn gwella ar ôl llawdriniaeth-Cesaraidd o’r 10fed diwrnod.***

***‘Wnes i drio trefnu archwiliad ond methais, a dwedon nhw wrtha’ i os nad oedd gen i bryderon,yna bod popeth yn iawn.’***

***‘Ches i ddim archwiliad ôl-eni.’***

***‘Roedd y Meddyg Teulu yn canolbwyntio ar y babi. Gofal iechyd i’r fam yn wael.’***

Siomedig oedd deall na wyddai 63% o ymatebwyr yr arolwg sut na ble i roi adborth na rhoi cwyn am eu gofal pe dymunent wneud hynny.




Pan gynigiwyd y cyfle, rhannodd cleifion eu hadborth a'u pryderon.

***'Oherwydd prinder staff, roedd rhaid aros 5 awr i gael fy asesu yn yr uned asesu. Rôn i'n 5cm ac yn esgor cefn wrth gefn pan ges fy asesu yn y diwedd.'***


***'Dwi o hyd ddim yn deall pam mod i wedi fy ngadael i esgor am gyhyd. Dywedwyd wrtha' i bod angen i'r babi gael ei eni 24 awr ar ôl i'r dŵr dorri gan iddynt dorri cyn i'r cyfangiadau ddechrau. Cyrhaeddodd y babi 54 awr yn ddiweddarach. Y ddau ohonom yn gorfod cael gwrthfiotigau mewnwythiennol.'***

## Opsiynau i Gleifion



Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo eu bod wedi cael rhan yn y penderfyniadau am eu gofal ar ôl geni, atebodd 25% 'naddo' a 2% ddim yn gwybod neu'n methu cofio.

> ***'Ges i Covid a fy mhartner hefyd, ond doedd dim hawl ganddo i fod yn bresennol yn y geni nac ymweld â ni yn yr ysbyty, felly fedrodd e ddim cwrdd â'i ferch nes oedd hi'n ddau ddiwrnod oed a ninnau'n cael mynd adref. Roedd y staff oedd yn gofalu amdana' i mewn PPE llawn eisoes ac yn agored i fy haint, felly dwi ddim wir yn gweld pam roedd rhaid i fy mhartner golli achlysur mor bwysig mewn bywyd, a finne wedyn yn cael fy ngadael heb bartner geni ac yn llawer mwy pryderus.'***




Roedd sylwadau ychwanegol a rannwyd yn nodi profiadau cadarnhaol a negyddol.

***'Cefnogaeth ffantastig gan y staff Nyrsio, Seicolegydd a Chaplin'***


***'Fues i'n ymbil am oriau iddynt symud y nodwydd o'm garddwrn gan mod i'n cael trafferth i godi'r babi... yn y diwedd fe wnaethon nhw...yna daeth rhywun i gymryd pwysau gwaed a saethodd y gwaed allan o fy mraich dros y babi i gyd. Ces i fy ngadael i lanhau'r llanast.'***

Hefyd, gofynnodd y CIC i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod eu triniaethau neu eu hopsiynau wedi'u heffeithio yn ystod pandemig Covid-19, ac os felly, a fuasent cystal â rhannu eu profiadau.

Nid syndod oedd clywed bod 60% o ymatebwyr yr arolwg yn credu bod eu triniaeth neu eu hopsiynau wedi cael eu heffeithio yn ystod pandemig Covid-19.


Ydych chi'n credu bod eich triniaeth neu'ch opsiynau wedi cael eu heffeithio yn ystod pandemig y Coronafeirws?
40%
60%
Ydw
Nac ydw
Yes
No

Nododd cleifion y diffyg gofal a chefnogaeth a roddwyd gan weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol a oedd cymaint pwysicach mewn cyfnod pan oedd cyfyngiadau Covid-19 yn golygu na fedrai ffrindiau a theulu ymweld i gynnig y gefnogaeth arferol.  Teimlent hefyd iddynt gael eu rhuthro yn ystod apwyntiadau a bod diffyg dilyniant i'w canlyniadau.



***'Yn sicr, prin y gweles i unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ystod fy meichiogrwydd a'r flwyddyn gyntaf ar ôl cael fy mhlentyn  - llawer llai nag sy'n arferol gyda'ch plentyn cyntaf.   Ac o ysyried bod pob dosbarth cyn-geni wedi'u canslo oherwydd Covid, roedd hi gymaint yn bwysicach i weld Bydwragedd i gael help gan fpd rhai pethau'n gwbl ddieithr i ni.  Rôn ni'n methu cael ffrindiau/teulu i ymweld a'm helpu, oherwydd Covid. Pan ôn i'n gweld Bydwraig / Meddyg / Cynorthwy-ydd Iechyd roedd y cyfan yn frysiog iawn (ar wahan i'r adeg pan rôn i yn yr ysbyty yn esgor) a dim ond eisiau dod mewn ac allan oedden nhw, heb edrych sut oeddwn i nac ateb fy nghwestiynau. Wnaethon nhw ond dweud wrtha' i i edrych ar wefan y GIG sydd ddim yn help gyda'ch babi cyntaf!   Dwi wedi fy siomi'n fawr - yn yr Ymwelwyr Iechyd yn bennaf ond hefyd yn y Bydwragedd yn ystod y beichiogrwydd oherwydd y diffyg gofal a'r gefnogaeth, ac ers ei chael mae fy iechyd meddwl wedi dirywio'n fawr oherwydd y diffyg cymorth er i mi ofyn amdano.   Dwi'n cydnabod bod pethau wedi gorfod newid oherwydd Covid, ond roedden ni angen mwy o gefnogaeth gan Fydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd gan nad oedd unrhyw gefnogaeth yn unman arall.  Dwi ddim yn beio'r ysbyty adeg yr esgor na pharodrwydd Bydwragedd ac Arbenigwyr bwydo ar y fron i ddod i'r tŷ i helpu yr wythnos gyntaf honno nes oeddwn i'n ddigon hyderus fod fy mabi'n bwydo'n iawn ar fy mron."***

***'Teimles mod i wedi cael dechreuad braidd yn trawmatig wrth eni'r babi ac roedd brech dieithr a haint ar ei groen. Felly cafodd ei roi ar IV am ychydig ddyddiau. Rwy'n credu taw rhywbeth i'w wneud â'r placenta oedd hyn a cafodd ei anfon i ffwrdd ond dwi heb glywed gair yn ôl. Hefyd dim oll am y frech ar y babi.'***

Nododd cleifion hefyd na chawsamt ddewis ym mhle fyddai eu hapwyntiadau cyn-geni yn digwydd, na ble y gallent gael eu babi. Doedd y gwŷr ddim yn cael mynychu apwyntiadau gyda'u gwragedd i roi cefnogaeth nac ymweld â hwy yn yr ysbyty.

***'Diffyg opsiynau o ran ble i gael y babi. Y gŵr ddim yn cael dod i apwyntiadau nac yn cael aros yn yr ysbyty ar ôl geni. Diffyg cefnogaeth gan staff yn ystod fy arhosiad yn yr ysbyty ar ôl y geni. Apwyntiadau ar y ffôn yn unig yn hytrach na wyneb yn wyneb.'***

***'Dim dewis o ran ble fyddai apwyntiadau cyn-geni yn digwydd. Doedd gan fy ngŵr ddim hawl i ymuno â fi mewn apwyntiadau er bod y babi yn blentyn iddo fe hefyd. Dywedodd y Fydwraig Gymunedol mai ond 15 munud y dylai'r apwyntiadau bara yn ôl cyfarwyddyd yr uwch-staff. Yn sicr, 'd yw hyn ddim digon da i asesu unigolion a gofalu amdanynt yn iawn.'***

***'Gorfod mynychu apwyntiadau ar ben fy hun, partner ond yn cael mynychu yn ystod cyfnod yr esgor, ac felly roedd rhaid mynd i gael fy indiwsio ar ben fy hun. Ar ôl rhoi genedigaeth trwy lawdriniaeth Cesaraidd, dim ond am un awr y cafodd fy mhartner aros a dim caniatâd iddo ddychwelyd. Wrth edrych yn ôl doeddwn i ddim digon da i adael yr ysbyty, ond dyna wnes i 24 awr ar ôl rhoi genedigaeth gan fy mod mor unig ac angen help i godi fy mabi i'w fwydo a'i newid ac ati. Roedd y ward yn rhy brysur i'r staff fedru helpu.'***

Rhoddodd cleifion enghreifftiau lle bu'n rhaid iddynt dderbyn newyddion drwg ar eu pen eu hunain, oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

***'Gan nad oedd fy ngŵr yn bresennol, roedd yr unigedd o gael gwybod gan Feddyg Iau mod i'n debygol o golli'r babi yn effeithio'n fawr ar fy lles emosiynol, yn yr un modd cael gwybod am beryglon cyflwr penodol oedd gen i ar ben fy hunan. Finne wedyn yn gorfod ceisio rhannu'r wybodaeth hon â'm hanwyliaid ar ben fy hun.'***



Dywedodd un claf wrth y CIC mai un o'r rhesymau iddynt ddewis geni gartref oedd cyfyngiadau Covid-19, er eu bod hefyd yn bryderus am y posibilrwydd o rywbeth yn mynd o'i le wrth eni gartref.

***'Un o'r rhesymau wnes i ddewis geni gartref oedd y coronafeirws. Gyda'm plentyn cyntaf, ces amser anodd yng nghyfnod yr esgor ac ar ôl geni. Rôn i angen fy mhartner yno. Roedd meddwl nad oedd e wrth fy ymyl yn gwneud i mi deimlo'n bryderus iawn. Rwy'n hoffi'r syniad o enedigaeth gartref ond wastad yn poeni beth a allai ddigwydd. Oherwydd Covid penderfynais mai'r lle gorau fyddai gartref.'***

Cymerodd un ymatebydd y cyfle i rannu ei rhwystredigaeth am na chafwyd rhybudd o ymweliadau'r Bydwragedd gan fod hyn yn amharu ar batrwm cysgu'r babi.

***'Hefyd, doedd e'n gwneud dim lles ei bod yn cael ei phwyso bob dau ddiwrnod, Byddai'r Bydwragedd yn galw neu'n ymddangos yn y tŷ heb fawr o rybudd, os o gwbl. Roedd hyn yn straen mawr ac yn tarfu ar ein hymdrechion cynnar i gael trefn rheolaidd. Weithiau, fydden ni newydd llwyddo i'w chael i gysgu, a byddai'r Fydwraig eisiau i ni ei deffro er mwyn ei gweld yn bwydo ar y fron. Gan ein bod yn cael cyn lleied o gwsg doedd hyn yn sicr ddim i'w groesawu – nac o unrhyw help gan ei bod hi o'r diwedd yn fodlon-lawn a pharod i gysgu.'***

## Gofal i Gleifion

Roedd y CIC yn awyddus i gasglu adborth gan gleifion am y gofal a gawsant gan weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol yn dilyn genedigaeth eu babi.





Gofynnwyd i ymatebwyr ddweud wrth y CIC a oeddent wedi llwyddo i gael gafael ar weithiwr Gofal Iechyd

proffesiynol i'w helpu pan oedd angen tra roeddent yn yr ysbyty yn dilyn yr enedigaeth.

Siom oedd canfod mai ond 27% o ymatebwyr yr arolwg a atebodd 'do, bob tro' i'r cwestiwn hwn.

Doedd 17% o'r ymatebwyr ddim angen unrhyw help a 2% arall ddim yn gwybod neu'n methu cofio.




Dywedodd cleifion nad oedd y staff yn ateb clychau galw a bod diffyg cefnogaeth neu sylw ar ran y staff.

Soniodd un claf am brofiad pryderus pan gafodd ei chamgymryd am rywun arall a bron iddi gael meddyginiaeth a fyddai wedi achosi sgil-effeithiau andwyol iddi.

***'Gofal ofnadwy***

***'Ces fy rhoi mewn ystafell ar ben fy hun, a neb yn cadw golwg arna' i yn rheolaidd. Gorfod pwyso'r botwm sawl gwaith am help i fwydo ar y fron ond ches i mo'r help oedd ei angen.'***

***'Ces fy rhyddhau i gychwyn gan fod nodiadau rhywun arall yn cael eu defnyddio a'u bod yn cyfeirio ataf fel rhywun yn byw rhywle arall. Bron i fi gael meddyginiaeth rhywun arall a allai fod wedi fy ngwneud yn sâl iawn.'***

***'Roedd fy mabi yn cael trafferth i lynu wrth fy mron ac rôn i wedi llwyr ymlâdd ar ôl esgor am 3 diwrnod, a nawr, babi newydd - arhosais i mor hir nes yn y diwedd es allan i chwilio am rywun.'***


***'Y profiad gwaethaf oll oedd ar ôl y geni. Dim staff yn ateb y clychau galw. Pan es i â'r babi at ddesg y Nyrsys doedd dim staff yno. Gan ei fod yn sgrechian, roedd rhaid i fi ei fwydo. Oriau yn ddiweddarach, roion nhw lond pen i fi gan nad oeddent wedi cofnodi ei 'BM', ond dyna'r union reswm fues i'n trio chwilio amdanyn nhw. Dros nos, caeais y llenni o gwmpas fy ngwely wrth roi'r golau arno rhag i mi ddeffro'r mamau eraill oedd wedi dod mewn dros nos. Heb ofyn, dyma'r Fydwraig yn eu hagor gan ddweud " Does dim llenni'n cael eu cau ar fy ward i".'***

Adroddodd rhai cleifion am brofiadau cadarnhaol iawn.

***'Adeg fy arhosiad byr ar ôl rhoi genedigaeth y ces i'r gofal gorau trwy gydol cyfnod fy meichiogrwydd/esgor.'***

***'Roedd Staff y ward yn wych (arhoson ni mewn er mwyn iddynt gadw golwg arnom am 48 awr) ond roedd hi'n amlwg eu bod yn brysur iawn.'***

Cadarnhaodd 87% o ymatebwyr yr arolwg wrth y CIC bod Bydwraig wedi ymweld â hwy gartref ar ôl yr enedigaeth. Dywedodd 5% arall o ymatebwyr yr arolwg nad oedd hyn yn berthnasol i'w sefyllfa hwy.




Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cadarnhau bod Bydwraig wedi ymweld â hwy yn eu cartref ar ôl genedigaeth eu babi, nododd cleifion bod yr archwiliadau ôl-eni yn annigonol. Rhoddodd cleifion

wybod i'r CIC mai'r unig archwiliadau a wnaed gan y Fydwraig oedd y rheiny ar y babi.

Chafodd rhai ddim cynnig yr archwiliad '6 wythnos' a gorfu iddynt wneud cais amdano ar ôl i'w Hymwelydd Iechyd eu cynghori i wneud hynny.

Nododd cleifion eu bod wedi colli eu cyfle am archwiliad '6 wythnos' gan nad oeddent wedi derbyn eu llythyr gwahoddiad. Dywedodd eraill bod eu cais am apwyntiad wedi'i wrthod er iddynt dderbyn llythyr yn eu gwahodd i wneud trefniadau.

Disgrifiodd un claf sut na chafodd ei hamgylchiadau personol eu hystyried gan weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol gan arwain at ddiffyg cefnogaeth lwyr i'r rhiant newydd hwn.

***'Ches i erioed archwiliad ôl-eni, dim ond fy mabi.'***

***'Archwiliad ôl-eni yn annigonol iawn.'***

***'Ches i ddim cynnig archwiliad 6 wythnos. Bu'n rhaid i mi ofyn amdano ar ôl cael cyngor gan fy Ymwelydd Iechyd eto.'***

***'Dwi ar fy mhen fy hun yn aml gan fod fy ngŵr yn y fyddin a dim teulu'n agos. Chafodd hyn mo'i ystyried ac rôn i'n teimlo'u bod eisiau gadael cyn gynted â phosibl ac felly wnaeth neb ofyn yn iawn sut oeddwn i'n ymdopi. Hwn oedd fy mabi cyntaf a doedd gen i ddim cefnogaeth. Rwy'n dal i stryglo oherwydd hyn ar ôl yr wythnos gyntaf honno.***


***'Derbyniais lythyr yn fy ngwahodd am fy archwiliad 6 wythnos. Pan ffoniais i wneud apwyntiad ces fy ngwrthod. Dwedwyd wrtha' i na fyddai'r Doctor yn fy ngweld er i mi gael llawdriniaeth-C. Roedd fy nghraith yn edrych yn llaith felly daeth fy Mydwraig allan i'm gweld gan fy mod yn mynnu.'***

***'Wnes i ddim cael llythyr yn cynnig archwiliad ac erbyn i fi gael gwybod y gallai fod angen i fi drefnu apwyntiad fy hunan, roedd hi'n rhy hwyr.'***

Rhoddodd 12% o ymatebwyr yr arolwg wybod i'r CIC na roddodd eu Bydwraig ystyriaeth i'w hamgylchiadau wrth roi cyngor iddynt.

Nododd 35% o ymatebwyr yr arolwg bod eu Bydwraig 'weithiau' wedi ystyried eu hamgylchiadau personol wrth roi cyngor.

Doedd 8% arall naill ai ddim yn gwybod neu'n methu â chofio a oedd eu Bydwraig wedi ystyried eu hamgylchiadau personol wrth roi cyngor iddynt.



Roedd yr adborth a roddodd ymatebwyr ar y mater hwn yn cofnodi profiadau lle na chafodd y tad ei gynnwys mewn trafodaethau, ac yn nodi diffyg cefnogaeth a addawyd i gleifion.


***'Cofiwch siarad â'r tad wrth sgwrsio â'r fam. Dydw i ddim yn cofio llawer o'r hyn a ddywedwyd a hefyd roedd y tad yn teimlo'n dipyn o "ddarn sbâr" er ein bod yn gwybod nad dyna oedd y bwriad.'***

***'Dim digon o help wedi'i roi ar ôl yr enedigaeth. Ces wybod y byddwn yn cael galwadau FaceTime yn lle cwrdd wyneb yn wyneb ond ddigwyddodd hyn ddim gyda'r Bydwragedd, Ymwelwyr Iechyd na'r Arbenigwyr bwydo ar y fron.'***

Gofynnon ni i ymatebwyr a oedd eu gweithiwr Gofal Iechyd wedi treulio digon amser gyda hwy yn ystod eu harchwiliad ôl-eni i drafod eu hiechyd corfforol.

Siomedig oedd clywed bod 40% o'r ymatebwyr wedi ateb 'naddo' i'r cwestiwn hwn, a 25% arall wedi ateb 'do, o ryw raddau'.


Cadarnhaodd 23% o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael archwiliad ôl-eni adeg llenwi'r arolwg.




Dywedodd un claf:

***'Rôn i'n teimlo nad oedd y cynllun bwydo wedi'i egluro'n ddigonol i ni ar y cychwyn.'***

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt hyder neu ymddiriedaeth yn y gweithwyr Gofal Iechyd proffesiynol a ofalai amdanynt ar ôl genedigaeth eu babi, atebodd 30% ohonynt 'nac oedd'. Atebodd 30% o ymatebwyr eraill 'oedd, weithiau'




Pan gawsant y cyfle i adael rhesymau am eu hateb, dywedodd yr ymatebwyr wrth y CIC eu bod wedi gweld Bydwraig wahanol ym mhob apwyntiad, ac yn amlwg doedd hyn ddim yn meithrin ymddiriedaeth na hyder ar gyfer ymatebwyr ein harolwg.

***'Gwahanol Fydwraig bob tro.'***

***'Gwahanol Fydwraig ar gyfer pob apwyntiad.'***

Rhannodd un claf brofiad cadarnhaol iawn am ei Bydwraig.

***'Roedd y Fydwraig yn anhygoel trwy gydol fy meichiogrwydd ac ar ôl yr enedigaeth.'***






Yng nghwestiwn olaf ein harolwg, gofynnwyd i ymatebwyr roi eu barn gyffredinol am eu profiad o'r gofal a gawsant hwy a'u babi yn ystod y beichiogrwydd, yr esgor, yr enedigaeth ac ar ôl i'w babi gael ei eni.

Yna rhoesom gyfle iddynt adael unrhyw adborth arall y dymunent ei rannu am y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghaerdydd a'r Fro.

Siomedig iawn oedd clywed mai dim ond 47% o'r ymatebwyr a nododd iddynt fod yn 'fodlon iawn' neu'n 'fodlon' gyda'u profiad yn gyffredinol.

Barnodd 25% bod eu profiad yn 'Weddol' gyda 35% arall yn nodi eu bod yn 'anfodlon' neu'n 'anfodlon iawn' gyda'u profiad.




Gellir gweld o'r adborth a roddwyd i'r cwestiwn hwn bod hyd yn oed y cleifion a nododd eu bod yn 'fodlon' â'u profiad wedi cael achlysuron trwy gydol eu hamser gyda'r Gwasanaethau Mamolaeth y gellid fod wedi gwella arnynt.

***'Teimlais bod fy rhoi mewn ystafell ar ben fy hun yn syth ar ôl rhoi genedigaeth yn wirioneddol anodd, yn enwedig gan fod rhaid i fy mhartner adael oherwydd cyfyngiadau Covid. Roedd hyn yn peri gofid mawr i fi.'***

***‘Dim yn uniongyrchol i wneud â’r gofal, ond y ward rôn i arni oedd ward olaf y troli bwyd. Rôn i yn yr ysbyty am 3 diwrnod ar ôl yr enedigaeth a ches i ddim pryd poeth o gwbl gan nad oedd dim ar ôl a bu’n rhaid i mi gael brechdanau. Nid y peth delfrydol i fam newydd flinedig / wanllyd i gynnal ei nerth.’***

***‘Wnaeth Staff y ward Asesu Cyn-geni ddim cyflwyno eu hunain pan gyrhaeddais yno gyda phroblemau. Roedd Bydwragedd y ward Indiwsio yn ofnadwy. Agwedd nawddoglyd iawn tuag at fenywod.’***

Roedd yr un peth yn wir am y rheiny a nododd mai ‘gweddol’ oedd eu profiad yn gyffredinol.

***'Rwy'n deall y pwysau sydd ar y GIG ond yn gyffredinol gallai'r system wneud gyda'i ddiweddaru o'r dechrau i'r diwedd.  Serch hynny, dwi ddim yn credu bod hynny'n cynnwys staff a phawb fues i'n delio â nhw,  Rôn nhw bob amser yn garedig a phroffesiynol.  Mae cadeiriau'r ysbyty yn anghyfforddus i fenywod beichiog eistedd arnynt ac aros hyd at 6 awr weithiau.  Gyda seiatica ac 8 mis yn feichiog rôn i'n teimlo'n sâl wrth fynd o apwyntiad gan mod i'n anghyfforddus drwydda' i.  Hefyd, wnes i erioed ddeall beth oedd unrhyw un o'r Ymgynghorwyr yn dweud wrtha' i. Hyd yn oed ar ôl gofyn iddynt egluro'n well rôn i'n teimlo'n fwy dryslyd.  Ces newyddion gwael hefyd ym mhob apwyntiad ac ond yn cael fy anfon oddi yno. Rwy'n deall bod cyfyngiadau Covid yr adeg honno ond 'd yw hi ddim yn ddelfrydol peidio caniatáu i rywun ddod mewn atoch pan rennir newyddion drwg.  Yn fy marn i, 'd yw'r ôl-ofal ddim yn wych chwaith.  Mae'r Bydwragedd eisiau eich rhyddhau mor fuan â phosib.  Wnes i erfyn ar fy Mydwraig i ddod allan i'm cartref ond doedd "byth angen", ac yn y pen draw bu'n rhaid i fy mabi fynd i'r ysbyty.'***

***'Roedd hi'n anodd peidio cael eich partner yno, yn enwedig adeg archwiliadau'r Fydwraig gan eu bod nhw'n deall a chofio rhannau oedd yn anodd i chi gyda'ch ymennydd beichiogrwydd. Dwi'n credu ein bod ni i gyd wedi ein siomi'n aruthrol yn ystod Covid. Hyd yn oed i'r graddau bod holl lythyrau fy merch ar gyfer ei brechiadau yn 2 fis yn hwyr. Pan geisiais gofrestru a threfnu ei brechiadau cyntaf, roedd hyn yn amhosibl gan nad oedd fy noctoriaid wedi cael gwybod am ei genedigaeth neu rywbeth. Felly byddai wedi bod bron yn rhy hwyr iddi eu cael oni bai mod i wedi cofio (sy'n anodd pan chi newydd gael babi).***

***'Roedd y gofal ôl-eni yn ofnadwy. Ces ymweliadau bob dydd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol na fedrai roi amser yr ymweliad i fi, gwahanol gyngor yn cael ei roi gan bob un, y cyngor yn anghyson, a gwneud i mi deimlo nad oedd fy anghenion i yn bwysig mwyach. Ches i ddim gwybod o gwbl y byddwn yn cael ymweliad gan Ymwelydd Iechyd, (fy mhlentyn cyntaf ac felly ddim yn gwybod y pethe hyn) nes i mi gael apwyntiad ar y ffôn gyda hi.'***


***'Mae'n drueni gan fod y gofal yn ystod fy meichiogrwydd yn dda ar wahân bod fy ngŵr ddim yn bresennol. Roedd y gofal am fy mabi ar NICU yn anhygoel ond roedd y gofal ar ôl y geni yn ofnadwy. Rôn i'n teimlo fel tase neb yn deall.'***

I’r rheiny a nododd iddynt fod yn ‘anfodlon’ neu’n ‘anfodlon iawn’ gyda’u profiad, mae effeithiau’r profiadau negyddol yn dal i gael eu teimlo heddiw.

***‘Ar hyn o bryd rwy’n dal i ddioddef PTSD (yn dal heb ddiagnosis) o ganlyniad i’r profiad hwn. Dwi ddim eisiau rhagor o blant mwyach rhag gwaethygu fy iechyd corfforol a meddyliol.’***

***‘Angen gwella’r gefnogaeth ôl-eni fel nad yw mamau’n teimlo’u bod yn cael eu hesgeuluso.’***

***‘Y diwrnod hwnnw aeth pethe o chwith i fi wrth eni dan arweiniad Bydwraig. Rydym wedi gorfod byw gyda’r canlyniadau hyd y dydd heddiw.’***



# Dysgu o’r hyn a glywsom

Gan mai 47% yn unig o ymatebwyr yr arolwg a ystyriodd eu bod yn ‘fodlon’ neu’n ‘fodlon iawn’ gyda’u profiad o Wasanaethau Mamolaeth yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae’n amlwg bod yr ymatebwyr yn teimlo bod lle ac angen i wella ym mhob maes a drafodwyd yn ein harolwg:  opsiynau i gleifion, cyfathrebu a gwybodaeth, a gofal.

## OPSIYNAU I GLEIFION

Roedd hi’n amlwg ac nid yn annisgwyl deall o ganlyniadau ein harolwg bod opsiynau i gleifion wedi’u heffeithio’n ddifrifol gan Bandemig Covid-19.  Nododd 80% o’r ymatebwyr na chawsant ddewis ble fyddai eu hapwyntiadau cyn-geni yn cael eu cynnal, ond ar yr un pryd adroddwyd bod y lleoliad a ddewiswyd yn addas i’w hanghenion ar y cyfan.  Dylid nodi fodd bynnag, bod y diffyg dewis hwn wedi arwain at gostau teithio ychwanegol i rai cleifion, ac mae hyn yn fater o bryder gan y gallai effeithio’n anghymesur ar y cleifion hynny sydd angen ymweld â gwasanaethau cyn-geni yn amlach nag eraill, neu ar y rhai sydd ar incwm is neu incwm sefydlog.

Dywedodd rhai cleifion bod cadeiriau'r ysbyty yn anghyfforddus i fenywod beichiog a rhai yn gorfod aros yn hir am yr apwyntiad i gael eu gweld.

Nododd un claf mai'r rheswm iddynt ddewis genedigaeth gartref, er eu pryderon ynghylch diogelwch, oedd cyfyngiadau Covid o ran cael cwmni yn ystod genedigaeth ysbyty. Clywsom hefyd gan gleifion eraill a gafodd drafferth i wneud penderfyniadau gwybodus tra'r oeddent yn yr ysbyty ar eu pennau'u hunain yn ystod yr esgor a'r enedigaeth am eu bod mewn poen neu sefyllfa gythryblus.

Er bod 82% o'r ymatebwyr wedi nodi iddynt deimlo bod ganddynt ran yn eu gofal cyn-geni, rhoddodd eraill enghreifftiau lle na ddilynwyd eu cynlluniau geni, penderfyniadau'n cael eu gwneud drostynt yn ystod yr esgor ac yn cael meddyginiaeth nad oeddent yn bendant ei heisiau.

Nid annisgwyl oedd clywed bod 60% o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo bod eu hopsiynau wedi'u heffeithio gan Bandemig Covid-19.

## CYFATHREBU A GWYBODAETH

Dywedodd ymatebwyr yr arolwg wrthym am y diffyg gwybodaeth a ddarparwyd yn ystod gofal cyn-geni, ac roedd hyn yn arbennig o anodd i rieni newydd. Er i 87% o'r ymatebwyr gadarnhau iddynt deimlo bod digon o amser ganddynt i drafod materion gyda'u Bydwraig, roedd hi'n ymddangos eto bod rhieni newydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan yr apwyntiadau 10 munud a gynigiwyd gan eu bod yn teimlo bod yr amser yn rhy fyr iddynt drafod materion yn llawn.

Nododd 92% o'r ymatebwyr bod ganddynt fanylion cyswllt eu Bydwraig neu'r tîm Bydwragedd ond nodwyd ganddynt hefyd yr anawsterau wrth iddynt geisio dod i gysylltiad - galwadau heb eu hateb neu ymatebion i ymholiadau heb eu rhoi mewn da

bryd.  I’r rhai a lwyddodd i gysylltu â’u Bydwragedd, dywedodd rhai cleifion wrth y CIC eu bod yn teimlo iddynt gael eu rhuthro yn ystod y cyswllt hwn.

Rhoddodd un ymatebydd enghraifft ohoni’n cael ei phasio nôl a blaen rhwng ei Meddyg Teulu a’r tîm Bydwragedd pan geisiodd cael triniaeth am Haint y Dŵr tra’n feichiog.  Yn y diwedd bu’n rhaid iddi gael ei thrin gan y gwasanaeth Y Tu Allan i Oriau.

Er bod 92% o'r ymatebwyr wedi dweud bod y Fydwraig wedi siarad â hwy mewn modd dealladwy, nododd cleifion eraill eu bod wedi’u drysu gan y termau meddygol a ddefnyddiwyd gan weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol yn ystod apwyntiadau.

Pwysleisiodd un claf fethiant staff i gyflwyno eu hunain tra roedd yn y ward Asesu Cyn-geni.

Problem arall a ddaeth i’r amlwg oedd y cyfyngiadau ar allu cleifion i gael cwmni i’r apwyntiadau cyn-geni, a rhai yn sôn eu bod yn cael trafferth cofio gwybodaeth oherwydd ‘ymennydd babi’.  I eraill, bu’n rhaid iddynt dderbyn newyddion trist am eu beichiogrwydd ar eu pen eu hunain heb unrhyw gefnogaeth emosiynol gan bartneriaid ar adeg bryderus iawn iddynt.

Mater difrifol iawn hefyd oedd bod cleifion yn gorfod rhoi manylion eu hanes meddygol blaenorol o golli babanod i bob gweithiwr Gofal Iechyd a welsant, a hynny am fod diffyg gwybodaeth am hanes meddygol blaenorol y cleifion.

Nododd rhai cleifion nad oedd eu cynlluniau geni’n cael eu parchu.  Dywedodd eraill bod eu cynlluniau geni’n cael eu newid heb yn wybod iddynt a heb unrhyw drafodaeth.  Soniwyd am y drafferth a gafodd y cleifion hynny wedyn i gysylltu â’r Ymgynghorwyr perthnasol i gael eglurhad am hyn.

Mater o bryder mawr i’r CIC oedd bod 44% o ymatebwyr wedi nodi nad oeddent wedi teimlo bod y pryder a godwyd ganddynt yn ystod esgor a genedigaeth eu babi wedi’i gymryd o ddifrif gan weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol.   Rhoddodd cleifion

enghreifftiau iddynt o'u pryderon am eu beichiogrwydd neu eu cynnydd yn ystod yr esgor yn cael eu hanwybyddu, dim ond i'r pryderon hyn gael eu profi'n ddilys gan olygu mwy o ymyrraeth feddygol yn y pen draw. O ganlyniad, adroddodd un claf fel y bu iddynt bron â cholli eu babi ac un arall iddi ddioddef poen wrth dorri asen na chafodd ddiagnosis.

Yn ogystal, dywedodd yr ymatebwyr iddynt deimlo bod staff yn anwybyddu eu pryderon ar ôl genedigaeth eu babi. Adroddodd un claf ei bod wedi cael anafiadau yn ystod yr esgor nas cymerwyd o ddifrif nes i Ymwelydd Iechyd ymyrryd i eiriol ar ei rhan gyda gweithwyr Gofal Iechyd proffesiynol eraill. Dywedodd un arall fel y bu'n rhaid i'w Meddyg Teulu wneud yr un peth a chymryd yr awennau o ran ei gofal cyn-geni.

Soniodd cleifion hefyd am ddiffyg cyfathrebu o du'r staff ynghylch cynnydd eu babi tra'i fod dan ofal arbenigol, a dywedodd un claf wrth y CIC bod eu babi wedi'i ddychwelyd iddynt gyda thiwb yn ei drwyn ac na chawsant unrhyw eglurhad am hyn.

Siomedig oedd clywed bod 37% o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo nad oedd ganddynt weithiwr Gofal Iechyd proffesiynol i siarad â hwy am unrhyw bryderon neu ofidiau yn dilyn genedigaeth eu babi. Daeth y diffyg cefnogaeth hwn i rai ar adeg pan oedd cyfyngiadau Covid-19 yn golygu na fedrent dderbyn cymorth gan ffrindiau a theulu y byddent fel arfer yn gallu o dan amgylchiadau arferol.

I'r rhai dan ofal ôl-eni, nodwyd ganddynt ddiffyg gwybodaeth am eu hadferiad corfforol hwy eu hunain, a bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth a roddwyd yn ymwneud â bwydo ar y fron.

Yn ogystal, dywedodd cleifion nad oedd yr wybodaeth ôl-eni a gawsant yn ymwneud yn benodol â'u babi hwy, ac felly nad oedd bob amser yn ddefnyddiol nac yn berthnasol. Hefyd, nododd cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth wrthgyferbyniol

gan bob gweithiwr Gofal Iechyd proffesiynol a welsant yn ystod eu gofal ôl-eni.

Mater arall a godwyd gan rai ymatebwyr oedd y prinder amseroedd apwyntiadau a roddwyd i ymweliadau ôl-eni gan weithwyr Gofal Iechyd proffesiynol. Dywedwyd bod hyn yn ddiwerth wrth geisio sefydlu trefn ar gyfer babi newydd anedig.

Siomedig hefyd oedd clywed bod 63% o ymatebwyr yr arolwg heb dderbyn gwybodaeth ar sut i adael adborth neu wneud cwyn ynglŷn â'u profiadau o fewn y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghaerdydd a'r Fro.

## GOFAL I GLEIFION

Rhoddodd ymatebwyr yr arolwg wybod i'r CIC mai dim ond 42% a welodd yr un Fydwraig ym mhob un o'u hapwyntiadau. Nododd rhai eu bod wedi gweld gwahanol Fydwraig ym mhob un o'u hapwyntiadau heb erioed weld yr un aelod o staff ddwywaith. Mae'n ymddangos bod diffyg dilyniant o staff yn ffactor sy'n cyfrannu at y diffyg ymddiriedaeth a hyder yr oedd gan rai cleifion yn eu gweithwyr Gofal Iechyd proffesiynol a ofalai amdanynt gan na fedrent ddatblygu unrhyw fath o berthynas gyda'u gweithiwr Gofal Iechyd proffesiynol a fyddai'n meithrin yr ymddiriedaeth a'r hyder hwn.

Siomedig oedd clywed gan rai ymatebwyr eu bod wedi dod ar draws 'staff anghwrtais', yn enwedig felly i un ymatebydd a oedd ar y pryd yn ceisio trefnu apwyntiad yn Ysbyty Athrofaol Cymru am fod symudiadau'r babi wedi lleihau.

Nododd ymatebwyr eraill bod staff yr ysbyty yn ymddangos yn brysur tu hwnt a 'dan bwysau' yn ystod eu cyfnod esgor a geni , gydag eraill yn dweud bod y staff yn gwneud iddynt deimlo yn niwsans a oedd yn creu trafferth iddynt. Nododd cleifion nad oedd staff yn ateb clychau galw, doedd un claf ddim mewn sefyllfa i fedru cyrraedd y gloch alw a bu'n rhaid iddi alw ar staff i'w helpu. Dywedodd un arall fel y gadawyd hi ar ben ei hun am

gyfnodau hir o amser, a heb deulu a phartneriaid yn cael bod yn bresennol roedd hyn yn peri llawer o ofid i rai.

Adroddodd cleifion am arosiadau hir am boenladdwyr er gofyn sawl gwaith gan bwysleisio diffyg cefnogaeth emosiynol i'r rhai oedd mewn Gofal Arbenigol. Rhoddodd 40% o ymatebwyr yr arolwg ddyfarniad negyddol i'w profiad o Ofal Arbenigol.

Y pryder mwyaf yw'r cleifion a ddywedodd eu bod wedi teimlo'n anniogel a heb ofal digonol gan ddefnyddio geiriau fel '*trawmatig*' i ddisgrifio eu profiad. I rai cleifion roedd y canlyniadau'n ddifrifol. Dywedodd cleifion eu bod yn dioddef o anhwylder straen wedi trawma (PTSD) o ganlyniad i'w beichiogrwydd a'r esgor, eraill ddim yn dymuno mwyach i gael rhagor o blant ar ôl eu profiadau gwael.

Roedd ymatebwyr eraill yn ganmoliaethus iawn o'r holl staff a welsant trwy gydol eu beichiogrwydd ac o'r gofal a gawsant yn ystod eu beichiogrwydd, esgor a gofal ôl-eni. Dywedodd un claf iddi roi genedigaeth gartref ar ei phen ei hunan gan fod y tîm Bydwragedd mor brysur, ond pan ddaethant ati ar ôl yr enedigaeth, pwysleisiodd eu bod yn hynod o gefnogol ac yn 'anhygoel'.

Yn ystod y gofal ôl-eni, clywodd y CIC fod cleifion wedi teimlo nad oedd unrhyw gefnogaeth emosiynol i'w gael. Dywedwyd eto bod staff yn ddi-hid o bryderon cleifion o ran bwydo ar y fron. Dywedwyd hefyd bod archwiliadau ar y fam ar ôl y geni yn wael a'r apwyntiadau'n canolbwyntio ar y newydd-anedig. Gwnaeth hyn i rai ymatebwyr deimlo nad oedd eu hanghenion hwy'n bwysig bellach, gyda 40% o ymatebwyr yn cadarnhau na thrafodwyd eu hiechyd corfforol o gwbl yn ystod eu hapwyntiadau ôl-eni.

Siomedig oedd clywed bod nifer o ymatebwyr heb gael cynnig archwiliad '6 wythnos', ac eraill yn sôn am anawsterau wrth drefnu apwyntiad er cael gwahoddiad i wneud hynny. Oherwydd y Pandemig, roedd bwriad i gyfnewid rhai apwyntiadau wyneb

yn wyneb am alwadau ‘Facetime’, ond ni chafodd rhai cleifion y galwadau hyn o gwbl er yr addewid.

Mae’n amlwg bod nifer y problemau a amlygwyd gan ymatebwyr yr arolwg hwn, megis diffyg opsiynau i gleifion, yn ganlyniad uniongyrchol o Bandemig Covid-19. Fodd bynnag, ni ellir priodoli’r pandemig i’r materion a godwyd ynghylch gofal i gleifion, cyfathrebu, agwedd ac ymddygiad staff, ac anwybyddu pryderon cleifion, a dylid eu datrys fel mater o frys.

Gall beichiogrwydd, genedigaeth a gofalu am fabi newydd fod yn gyfnod anodd, brawychus a llawn straen i lawer o bobl. Dylai Gwasanaethau Mamolaeth sicrhau bod cleifion yn teimlo’u bod yn cael eu cefnogi, eu bod yn ddiogel ac yn cael gofal yn ystod y cyfnod hwn. Dylai’r Gwasanaethau Mamolaeth anelu at sicrhau nad ydynt yn achosi, yn cyfrannu at brofiadau negyddol i gleifion nac yn gwaethygu’r profiadau hynny.

# Diolchiadau

Diolchwn i bawb a gymerodd amser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal, ac am rannu eu syniadau.

Gobeithiwn y bydd yr adborth y mae pobl wedi neilltuo amser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i sylweddoli a gwerthfawrogi yr hyn y maent yn ei wneud yn dda – a gweithredu lle bo angen mor fuan â phosibl i wneud gwelliannau.

# Adborth

Byddem wrth ein bodd clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn a chael unrhyw awgrymiadau ar sut y gallem fod wedi gwella arno, fel y gallwn eu defnyddio i wella ein gwaith yn y dyfodol.

Mae’r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg a Chymraeg.



# Manylion Cyswllt

CIC De Morgannwg / South Glamorgan CHC
Canolfan Fusnes Pro Copy (Cefn)/ Pro Copy Business Centre (Rear)
Parc Tŷ Glas
Llanisien / Llanishen
Caerdydd / Cardiff
CF14 5DU

02920 750112

SouthGlam.chiefofficer@waleschc.org.uk

www.southglamorganchc.wales

www.facebook.com/SouthGlamCHC

www.twitter.com/SouthGlamCHC

Os ysgrifennwch atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg

**Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg**